Swansea University
Prifysgol Abertawe

# Amodau a Thelerau Prifysgol Abertawe

**Mae'r Amodau a Thelerau hyn yn berthnasol i ddarpariaeth gwasanaethau academaidd a chysylltiedig i chi gan y Brifysgol mewn cysylltiad â'ch lle ar raglen astudio. Mae'r Amodau a Thelerau hyn yn rhan o gontract rhyngoch chi a'r Brifysgol, ac maent yn cynnwys dogfennaeth y cyfeirir ati yn yr Amodau a Thelerau hyn. Gallwch chi ymrwymo i gontractau ychwanegol â'r Brifysgol ar gyfer gwasanaethau eraill, megis llety, aelodaeth o'r campfeydd neu wasanaethau arlwyo ond caiff y rhain eu llywodraethu gan delerau ac amodau ar wahân.**

**Mae'r Amodau a Thelerau hyn yn darparu gwybodaeth bwysig am hawliau a chyfrifoldeb y Brifysgol a chi mewn perthynas â'r contract hwn. Gwnewch yn siŵr eich bod chi'n darllen yr Amodau a Thelerau hyn yn ofalus cyn i chi dderbyn ein cynnig.** Os oes gennych chi gwestiynau am yr Amodau a Thelerau hyn neu os bydd angen rhagor o fanylion arnoch chi, cysylltwch â'r Brifysgol drwy e-bostio, **study@abertawe.ac.uk.**

**Mae'r contract rhyngoch chi a'r Brifysgol yn ddilys pan fyddwch chi'n derbyn ein cynnig.**

**Er y dylech chi ddarllen yr Amodau a Thelerau hyn yn eu cyfanrwydd, hoffai'r Brifysgol dynnu'r paragraffau canlynol at eich sylw - 3, 5, 25, 26, 27, 30 a 31 - ac yn benodol y rhai hynny sy'n cynnwys gwybodaeth bwysig am ein hawliau i newid y Rhaglen a/neu Amodau a Thelerau a dogfennau eraill, eich cyfrifoldeb am Ffïoedd, ein hatebolrwydd a'n hawliau i ddod â'r contract â chi i ben.**

## 1. Gwybodaeth bwysig amdanom ni

1.1. Mae'r amodau a thelerau hyn ("**Amodau a Thelerau**") yn berthnasol i chi os cawsoch gynnig gan Brifysgol Abertawe (y "**Brifysgol**") yn pennu manylion ac amodau eich derbyn i un o raglenni'r Brifysgol, yn dechrau yn 2024 neu wedi'i ohirio tan 2025.

1.2. Mae'r Amodau a Thelerau hyn yn rhoi manylion am y berthynas rhwng y Brifysgol ("ni", "ein") a chi.

1.3. Mae'r Brifysgol yn gorfforaeth annibynnol a chanddi statws elusennol a sefydlwyd gan Siarter Frenhinol gyda'r rhif cofrestredig RC000639 a lleolir ei swyddfa gofrestredig ym Mharc Singleton, Abertawe, SA2 8PP.

## 2. Derbyn eich cynnig

2.1. Byddwn yn anfon llythyr cynnig atoch chi sy'n manylu ar ein cynnig o le ar raglen astudio gyda ni. **Lle bo'n berthnasol**, bydd y llythyr cynnig yn eich cyfeirio at wefan UCAS sydd hefyd yn cynnwys gwybodaeth bwysig am ein cynnig i chi. At ei gilydd, mae'r llythyr cynnig a'r wybodaeth

a ddarperir ar wefan UCAS yn cynrychioli ein "**Cynnig**" i chi.

Mae'r Cynnig hwn yn amlinellu gwybodaeth bwysig ynglŷn â'r canlynol:

2.1.1. y rhaglen rydych chi wedi dewis ei hastudio, gan gynnwys gwybodaeth ymarferol berthnasol ynghylch darparu'r rhaglen (y "**Rhaglen"**)
2.1.2. manylion am ffïoedd dysgu sy'n daladwy gennych chi am hyd y rhaglen (y **"Ffïoedd"**)
2.1.3. hyd y Rhaglen (gan gynnwys y dyddiad dechrau)
2.1.4. manylion o ran ble a phryd caiff y Rhaglen ei darparu
2.1.5. manylion am unrhyw amodau a allai fod yn berthnasol i'r Cynnig
2.1.6. manylion am wasanaethau academaidd a bugeiliol a fydd ar gael i chi gan y Brifysgol yn ystod hyd y Rhaglen
2.1.7. Gwybodaeth arall sy'n berthnasol i'r Rhaglen a'ch astudiaethau gyda'r Brifysgol.

2.2. Gallwch dderbyn eich Cynnig drwy ddilyn y camau a amlinellir yn eich Cynnig. Rhaid i chi wneud hyn erbyn y dyddiad a roddwyd i chi gan UCAS neu, os nad ydych chi'n cyflwyno cais drwy UCAS, erbyn y dyddiad a nodwyd yn eich Cynnig.

2.3. Os byddwch chi'n penderfynu derbyn y Cynnig, caiff contract ei greu rhyngoch chi a'r Brifysgol pan fyddwch chi'n derbyn y cynnig ac wrth gydymffurfio ag unrhyw amodau a amlinellwyd yn y Cynnig. Ystyrir y byddwch chi wedi derbyn y cynnig pan fyddwch chi'n derbyn y Cynnig, gan ddefnyddio'r system cyflwyno cais ar-lein briodol, h.y., System Apply neu system UCAS, neu os nad yw'r Cynnig wedi'i wneud drwy ein system cyflwyno cais ar-lein na thrwy UCAS, drwy gadarnhau eich bod yn derbyn y Cynnig hwn yn ysgrifenedig.

2.4. Mae'ch hawliau a'ch ymrwymiadau i'r Brifysgol, a hawliau ac ymrwymiadau'r Brifysgol i chi, yn unol â'r contract hwnnw, wedi'u nodi yn y dogfennau a restrir isod, sy'n ffurfio Telerau ac Amodau'ch contract myfyriwr. O ganlyniad, dylech chi ddarllen y ddogfen hon (a'r dogfennau a restrir isod) yn ofalus, gan ymgyfarwyddo'n llawn â'i chynnwys (ynghyd â chynnwys y dogfennau, y rheoliadau, y polisïau a'r gweithdrefnau y mae'n cyfeirio atynt) cyn derbyn eich cynnig.

- Yr Amodau a Thelerau ac unrhyw ddogfennau y cyfeirir atynt yn yr Amodau a Thelerau hyn
- Eich Llythyr Cynnig
- Rheoliadau a Chanllaw Academaidd y Brifysgol, sydd ar gael yn: https://myuni.swansea.ac.uk/academic-life/academic-regulations/
- Manylebau'r rhaglenni, sydd i'w gweld ar gyfer pob rhaglen israddedig yn: http://www.swansea.ac.uk/cy/israddedig/cyrsiau/ ac ar gyfer pob rhaglen ôl-raddedig a addysgir yn http://www.swansea.ac.uk/cy/ol-raddedig/addysgir/

## 3. Newidiadau yn eich rhaglen astudio a/neu i'r Amodau a Thelerau hyn

3.1. Mae eich Cynnig lle i astudio yn y Brifysgol wedi'i seilio ar y canlynol:

3.1.1. Yr wybodaeth allweddol ddiweddaraf, sydd ar gael ar y dudalen berthnasol yn adran Rhaglenni ein gwefan (ar ddyddiad derbyn eich cynnig). Mae hyn yn cynnwys modiwlau craidd y rhaglen, a gallai gynnwys y modiwlau dewisol sy'n debygol o gael eu cynnig; a'r
3.1.2. fersiynau cyfredol o Ganllaw Academaidd y Brifysgol - https://myuni.swansea.ac.uk/academic-life/academic-regulations/

3.2. Bydd y Brifysgol yn gwneud ymdrechion rhesymol i ddarparu eich Rhaglen yn unol â manyleb y Rhaglen ac fel a ddisgrifiwyd yn y prosbectws argraffedig neu ar-lein perthnasol ar gyfer y flwyddyn academaidd.

3.3. Bydd hawl gan y Brifysgol i wneud newidiadau rhesymol i'w rhaglenni lle bydd hynny'n galluogi'r Brifysgol i ddarparu rhaglen gyfatebol neu brofiad addysgol o ansawdd gwell i fyfyrwyr sydd wedi cofrestru ar y rhaglen. Gall enghreifftiau o'r newidiadau hyn gynnwys:

3.3.1. Cynnwys a maes llafur y rhaglen lle mae datblygiadau yn y maes pwnc yn gwneud hynny'n angenrheidiol
3.3.2. Yr amserlen, lleoliad y rhaglen a nifer y dosbarthiadau
3.3.3. Dull cyflwyno'r rhaglen, gwasanaethau a chyfleusterau
3.3.4. Strwythur ac/neu amseriad y flwyddyn academaidd
3.3.5. Y trefniadau ar gyfer y broses arholi ac asesu a'r dulliau sy'n ymwneud â hynny

3.4. Mae enghreifftiau o amgylchiadau lle gallai fod angen i'r Brifysgol wneud newidiadau o'r fath yn cynnwys:

3.4.1. Bodloni gofynion corff achredu, proffesiynol, statudol a/neu reoliadol
3.4.2. Fel y bo'n ofynnol yn ôl y gyfraith, polisi'r llywodraeth, canllawiau na phenderfyniadau llys cymwys neu gorff tebyg arall
3.4.3. Ymateb i arfer da yn y sector neu i brosesau gwella ansawdd
3.4.4. Cadw rhaglenni’n gyfoes drwy ddiweddaru arferion neu feysydd astudio
3.4.5. Oherwydd amgylchiadau y tu hwnt i reolaeth resymol y Brifysgol e.e. os bydd aelod staff allweddol yn gadael y Brifysgol neu'n methu ag addysgu (lle mae’r rhaglen neu'r modiwl yn dibynnu ar arbenigedd y person hwnnw)
3.4.6. Gwelliannau i Ystadau a Chyfleusterau'r Brifysgol a chynlluniau i adleoli Ysgolion/Colegau neu Adrannau
3.4.7. Amgylchiadau eraill y tu allan i reolaeth resymol y Brifysgol, gan gynnwys (heb fod yn gyfyngedig i) weithredu diwydiannol, tywydd garw, trychineb naturiol, tân, anhrefn sifil, aflonyddwch gwleidyddol, cyfyngiadau llywodraeth a/neu awdurdod cyhoeddus, pryder allweddol ynghylch lledaeniad salwch difrifol a chlefyd epidemig neu bandemig gan ei gwneud hi'n anniogel darparu rhaglen

3.5. Ar ben hynny, gall fod angen newid rhaglenni neu fodiwlau lle na ddenwyd y nifer isaf o fyfyrwyr i sicrhau profiad da i fyfyrwyr neu brofiad addysgol da. Sylwer y gellir tynnu rhaglenni'n ôl o dan rai amgylchiadau eithriadol (cyn iddynt ddechrau) am y rheswm hwn.

3.6. O bryd i'w gilydd, mae angen i ni wneud newidiadau bach i'r Rhaglen neu'r Amodau a Thelerau hyn (gan gynnwys y dogfennau y cyfeirir atynt yn yr Amodau a Thelerau hyn). Mae enghreifftiau o newidiadau bach yn cynnwys (heb fod yn gyfyngedig i) newidiadau rhesymol i amserlen y Rhaglen, nifer y dosbarthiadau/darlithoedd neu weithgareddau addysgu eraill, sut y darperir gwasanaethau TG, llyfrgell neu eraill i chi, dulliau cyflwyno neu asesu'r Rhaglen, modiwlau cynnwys neu feini llafur y Rhaglen, lleoliad darparu'r Rhaglen, newidiadau gweithdrefnol, newidiadau i reoliadau, codau ymarfer, polisïau a gweithdrefnau.

3.7. Pan fydd newidiadau bach, byddwn yn cymryd camau rhesymol i'ch hysbysu am unrhyw newidiadau (fel arfer yn ysgrifenedig neu drwy e-bost, ond gallai hyn gynnwys diweddaru dogfennau a/neu ddeunyddiau Rhaglen a gwneud y dogfennau hyn yn hygyrch ar wefan y Brifysgol a/neu gyhoeddi rhyw ffordd arall fel y byddwch chi'n ymwybodol o'r newidiadau hyn) a bydd yn eich darparu chi â chymaint o rybudd ag sy'n rhesymol i'r amgylchiadau yn ein barn ni. Lle bo'n bosib, byddwn yn darparu rhybudd i chi o flaen llaw, ond efallai na fydd hyn bob amser yn bosib. Bydd y Brifysgol yn ceisio sicrhau bod hyn yn amharu cyn lleied â phosib arnoch hefyd.

3.8. Mewn amgylchiadau eithriadol, efallai y bydd yn rhaid i ni wneud newidiadau mawr i'r Rhaglen

a/neu'r Amodau a Thelerau hyn (gan gynnwys y dogfennau y cyfeirir atynt yn yr Amodau a Thelerau hyn) – mae'r rhain yn newidiadau nad ydynt yn fach ac a fydd yn newid y Rhaglen a/neu'r Amodau a Thelerau hyn yn sylweddol. Mae enghreifftiau o newidiadau'n cynnwys (ond heb fod yn gyfyngedig i) newidiadau sylweddol i'r ffordd rydym ni'n addysgu, yn cyflwyno a/neu'n asesu Rhaglen (er enghraifft, newid sylweddol yng nghydbwysedd yr asesiad o waith cwrs i arholi ar draws Rhaglen), newidiadau i deitl eich dyfarniad neu'ch Rhaglen, newidiadau sylweddol i gyfleusterau addysgu eich Rhaglen (megis symud Rhaglen i leoliad cwbl wahanol nad yw o fewn pellter rhesymol i leoliad darpariaeth flaenorol y Rhaglen) neu benderfyniad i gyfuno Rhaglenni neu ailstrwythuro arall o bwys i Raglen.

3.9. Pan fydd newidiadau'n rhai mawr (hynny yw, maent yn newid Rhaglen neu'r Amodau a Thelerau hyn mewn ffordd sylweddol), bydd y Brifysgol yn ymgynghori â chi cyn gwneud y newid. Cynhelir ymgynghoriadau o'r fath naill ai drwy'r Pwyllgor Partneriaeth ac Ymgysylltu â Myfyrwyr neu ar y cyd â myfyrwyr unigol yr effeithir arnynt drwy e-bost a chaiff ymatebion eu hanfon at Gynrychiolwyr Myfyrwyr am gyd-drafodaeth yn y pwyllgor.

3.10. Os na fyddwch chi'n ein hysbysu nad ydych chi'n cytuno â'r newidiadau mawr arfaethedig o fewn cyfnod penodol o amser o gael eich hysbysu (ac ym mhob achos, o fewn 14 diwrnod o gael eich hysbysu), byddwn yn ystyried eich bod yn fodlon parhau â'ch Rhaglen ar sail y newid perthnasol sy'n cael ei wneud.

3.11. Os na fyddwch chi'n cytuno â newid sylweddol rydym ni'n penderfynu ei wneud i'r Rhaglen neu'r Amodau a Thelerau hyn ac rydych chi wedi dweud wrthym ni cyn i ni wneud y newid sylweddol nad ydych chi'n cytuno ag ef, bydd hawl gennych chi ddod â'r cytundeb i ben a gallech chi fod yn gymwys am ad-daliad priodol o'r ffïoedd rydych chi wedi eu talu i'r Brifysgol am y gwasanaethau nad ydych chi wedi'u derbyn. Byddwn yn ceisio cynnig lle i chi ar Raglen amgen yn y Brifysgol fel y bo'n briodol.

3.12. Fel arfer, bydd newidiadau (boed yn fawr neu'n fach) yn dod i rym ar ddechrau'r flwyddyn academaidd nesaf, ond gellir cyflwyno rhai newidiadau yn ystod y flwyddyn academaidd bresennol neu'n syth lle mae hwn er budd gorau'r myfyrwyr ym marn resymol y Brifysgol, neu pan fydd yn ofynnol yn ôl y gyfraith neu mewn amgylchiadau eithriadol.

3.13. Efallai y bydd hefyd adegau pan fydd yn rhaid i ni dynnu Rhaglen yn ôl neu gyfuno'r Rhaglen â Rhaglenni eraill. Os caiff eich rhaglen ei thynnu'n ôl, ei chyfuno â rhaglen arall neu os newidir ei helfennau sylfaenol ar ôl i chi dderbyn eich cynnig, bydd y Brifysgol yn cymryd camau rhesymol i roi gwybod i chi'n gynnar fod y rhaglen wedi cael ei thynnu'n ôl neu ei newid, ac i leihau'r effaith drwy gynnig rhaglen arall addas (os oes un ar gael ac os ydych yn bodloni'r gofynion mynediad), neu bydd yn eich helpu i ddod o hyd i raglen neu brifysgol arall. Yn ogystal, bydd gennych hawl i dynnu'n ôl o'ch rhaglen a chyflwyno cais am ad-daliad, neu ad-daliad rhannol, am unrhyw ffioedd a dalwyd gennych chi.

3.14. Ceir rhagor o wybodaeth am ein Hymwadiad Rhaglen yma: https://www.swansea.ac.uk/cy/astudio/ymwadiad-rhaglen/

3.15. Hefyd, bydd hawl gan y Brifysgol i newid y Ffïoedd yn unol â pharagraff 5.2.

## 4. Statws Ffïoedd

4.1. Bydd y Brifysgol yn asesu eich statws o ran ffïoedd yn seiliedig ar yr wybodaeth a ddarparwyd gennych chi yn eich cais mewn perthynas â *Rheoliadau Addysg (Ffïoedd Myfyrwyr, Dyfarniadau, a Chyrsiau a Phersonau Cymhwysol) (Cymru) 2015* yn unol â'i Pholisi Asesu Ffïoedd.

4.2. Os nad yw eich statws ffïoedd yn glir o'r wybodaeth a ddarparwyd gennych chi yn eich cais, byddwn yn gofyn i chi ddarparu rhagor o wybodaeth er mwyn gallu cadarnhau eich statws ffïoedd. Yn y cyfamser, bydd eich cynnig yn rhoi dyfynbris yn seiliedig ar gyfradd is "y DU" a'r ffi "ryngwladol" uwch nes y caiff eich statws ei gadarnhau.

4.3. Os nad ydych chi'n cytuno ag asesiad y Brifysgol o'r statws ffïoedd, bydd gennych chi'r hawl i ofyn i'r Brifysgol ail-asesu yn unol â'r Polisi Asesu Ffïoedd. Os ydych chi'n anghytuno ag asesiad o'r fath, bydd hawl gennych chi apelio yn erbyn y penderfyniad hwn yn unol â'r Polisi Asesu Ffïoedd.

## 5. Ffïoedd a Thaliadau

5.1. Bydd y ffïoedd a nodir yn eich cynnig yn berthnasol ar gyfer blwyddyn gyntaf eich rhaglen yn unig.

5.2. Bydd ffïoedd ar gyfer Myfyrwyr Rhyngwladol a Myfyrwyr Ôl-raddedig y DU (a Addysgir) yn cynyddu 3% ym mhob blwyddyn astudio ddilynol. Bydd ffioedd ar gyfer myfyrwyr ôl-raddedig y DU (Ymchwil) yn cynyddu ym mhob blwyddyn o ymchwil, yn unol ag argymhellion UKRI

5.2.1. Hefyd gall ffïoedd myfyrwyr israddedig amser llawn o'r DU gynyddu mewn blynyddoedd astudio wedi hynny os bydd Llywodraeth Cymru'n pennu cynnydd ar sail chwyddiant. Er enghraifft, os yw eich ffïoedd yn y flwyddyn gyntaf yn £9,535 ac mae Llywodraeth Cymru yn pennu cynnydd sy'n gysylltiedig â chwyddiant o 3% y flwyddyn, bydd y Brifysgol yn cynyddu eich ffi i £9,821.05 yn yr ail flwyddyn a £10,115.68 yn y drydedd flwyddyn. Byddwn yn rhoi gwybod i chi'n flynyddol am unrhyw gynnydd o'r fath a chyn gynted â phosib yn dilyn cadarnhad gan Lywodraeth Cymru.

5.3. Mae'n bosib y codir ffïoedd mainc ar ben eich ffioedd dysgu i dalu costau offer arbenigol neu gostau labordy angenrheidiol ar gyfer eich ymchwil. Os oes ffïoedd mainc i'w talu, pennir y swm gan eich goruchwyliwr, a chaiff ei gynnwys yn eich Cynnig.

5.4. Drwy dderbyn y Cynnig, rydych chi'n cytuno i dalu'r holl Ffïoedd pan fyddant yn daladwy (gan gynnwys unrhyw gostau a threuliau ychwanegol, megis ffïoedd ail-sefyll). Eich cyfrifoldeb chi yw sicrhau y caiff eich ffïoedd a'r holl dreuliau sy'n ymwneud â'ch rhaglen eu talu'n llawn ac yn brydlon. Mae gofynion y Brifysgol o ran talu ffïoedd ar gael yng nghymal 5.5.

5.5. Ceir gwybodaeth am ffïoedd, gan gynnwys manylion am sut i drefnu talu eich ffïoedd, yn:

5.5.1. Ar gyfer israddedigion o'r DU
5.5.2. Ar gyfer ôl-raddedigion o'r DU
5.5.3. Ar gyfer myfyrwyr o'r Undeb Ewropeaidd/myfyrwyr Rhyngwladol

5.6. Os ydych yn fyfyriwr a noddir, byddwch yn llwyr gyfrifol o hyd am sicrhau y telir yr holl ffïoedd yn llawn a bod eich noddwr yn talu unrhyw ddyled heb ei chlirio mewn perthynas â'ch ffïoedd i'r Brifysgol yn brydlon. Os na fydd eich noddwr yn talu'r Ffïoedd i ni pan fyddant yn daladwy, byddwch yn gyfrifol am dalu'r Ffïoedd sy'n ddyledus.

5.7. Oni nodir yn wahanol yn eich llythyr cynnig, nid yw'r ffi ddysgu a ddyfynnir yn eich llythyr cynnig yn cynnwys unrhyw daliadau am lety preswyl, ailadrodd cyfnodau astudio, estyn y cyfnod astudio dynodedig, ffïoedd ailgyflwyno, costau teithio neu unrhyw gostau amrywiol eraill a all fod yn gysylltiedig â'ch rhaglen astudio (e.e. costau teithiau maes, llyfrau ac offer).

Gellir gweld manylion y costau amrywiol rydych yn debygol o'u hwynebu ar eich rhaglen ar ein gwefan ar gyfer rhaglenni israddedig: www.swansea. ac.uk/cy/israddedig/cyrsiau ac ar gyfer

pob rhaglen ôl-raddedig a addysgir yn http://www.swansea.ac.uk/cy/ol-raddedig/addysgir/

5.8. Os oes gennych unrhyw gwestiynau am Ffïoedd neu os oes angen rhagor o fanylion arnoch ynglŷn â thalu'ch Ffïoedd, dylech gysylltu â'r Tîm Cyllid ym Mhrifysgol Abertawe https://www.swansea.ac.uk/cy/y-brifysgol/amdanom-ni/cyllid/talu-ffioedd-dysgu-a-gwybodaeth-arall/ Os oes gennych unrhyw anawsterau wrth dalu eich Ffïoedd, dylech gysylltu â'r tîm Arian@BywydCampws yn yr Adran Gwasanaethau Myfyrwyr a allai helpu gyda Chronfeydd Caledi a chyngor (https://www.swansea.ac.uk/cy/arian-bywydcampws/arianbywydcampws-sgwrs-fyw/)

## 6. Peidio â Thalu Ffïoedd

6.1. Os nad ydych chi'n talu eich Ffïoedd yn llawn neu'n brydlon, gall y Brifysgol bennu cosbau sydd wedi'u hamlinellu yn y Canllaw Academaidd a/neu'r Polisi Dyled Myfyrwyr (sy'n cynnwys yr hawl i dynnu'n ôl o'r Rhaglen a dod â'r contract hwn i ben os byddwch chi'n parhau i fethu â thalu Ffïoedd yn brydlon). O ganlyniad, mae'n bosib na chewch symud ymlaen â'ch rhaglen neu y gofynnir i chi dynnu'n ôl o'r Brifysgol. Os byddwch wedi cwblhau eich rhaglen, mae'n bosib na chaniateir i chi raddio a/neu dderbyn eich tystysgrif gradd neu ddatganiad academaidd tan i chi dalu'r ffïoedd sy'n ddyledus. Gall y Brifysgol hefyd gymryd camau cyfreithiol yn eich erbyn i adennill unrhyw ffïoedd heb eu talu, lle gallai fod costau pellach. Mae rhagor o wybodaeth ar ein tudalennau gwe yn: https://www.swansea.ac.uk/cy/y-brifysgol/amdanom-ni/cyllid/talu-ffioedd-dysgu-a-gwybodaeth-arall/polisi-dyled-myfyrwyr/

## 7. Gohirio'ch dyddiad dechrau

7.1. Ystyrir ceisiadau am ohirio mynediad tan y flwyddyn neu'r adeg fynediad ganlynol ar sail unigol. Sylwer na fydd rhai rhaglenni'n caniatáu gohirio mynediad. Dylid cyflwyno cais am ohirio mynediad drwy ysgrifennu at y Swyddfa Derbyn Myfyrwyr yn admissions@abertawe.ac.uk.

7.2. Mae'r ffïoedd dysgu a nodwyd yn eich llythyr cynnig yn seiliedig ar y dyddiad dechrau yn 2025/26 a nodwyd yn eich llythyr cynnig ac yn berthnasol ar gyfer y flwyddyn astudio honno. Fodd bynnag, os byddwch yn gofyn wedi hynny i ohirio'ch cais i'r flwyddyn ganlynol, mae'n debygol y bydd eich ffïoedd dysgu yn fwy na'r hyn a nodir yn eich llythyr cynnig. I fyfyrwyr o'r DU, gallai hyn fod oherwydd newidiadau ym mholisi'r Llywodraeth. Dylai myfyrwyr rhyngwladol gysylltu â'r Swyddfa Derbyn Myfyrwyr am ragor o wybodaeth.

7.3. Os ydych, o'r cychwyn cyntaf, yn cyflwyno cais am le ar gyfer y flwyddyn ganlynol, mae'n bosib na fydd ffioedd y flwyddyn ganlynol ar gael a bydd eich cynnig yn dyfynnu ffioedd y flwyddyn gyfredol fel canllaw. Mae'r ffïoedd ar gyfer y flwyddyn ganlynol yn debygol o gynyddu a byddwch yn cael gwybod am y ffïoedd dysgu cywir pan fyddant ar gael.

7.4. O ganlyniad i ohirio'ch dyddiad dechrau tan y flwyddyn ganlynol, rydych yn derbyn y gall fod angen i'r Brifysgol amrywio gwasanaethau, cyfleusterau, disgrifiad, cynnwys, dull a/neu leoliad cyflwyno a/neu amserlen eich rhaglen. Os digwydd hyn, bydd y Brifysgol yn rhoi gwybod i chi am unrhyw newidiadau perthnasol cyn gynted ag sy'n rhesymol ymarferol a bydd cyfle i chi ganslo eich lle (a'ch contract gyda'r Brifysgol) os ydych yn anfodlon ar y newidiadau i'r rhaglen.

7.5. Ceir rhagor o wybodaeth ar ein tudalennau gwe – https://www.swansea.ac.uk/media/Deferral-Policy.pdf

## 8. Eich hawl statudol i ganslo eich lle

8.1. Pan fyddwch chi wedi derbyn eich Cynnig, bydd gennych chi'r hawl i ganslo eich derbyniad o fewn 14 dydd o dderbyn y Cynnig (y "**Cyfnod Callio**") heb roi unrhyw reswm o dan y Rheoliadau

Contract Defnyddwyr (Gwybodaeth Canslo a Thaliadau Ychwanegol) 2013.

8.2. Er mwyn defnyddio'r hawl i ganslo, mae'n rhaid i chi roi gwybod i'r Swyddfa Derbyn Myfyrwyr (Parc Singleton, Abertawe, SA2 8PP cyfeiriad e-bost: admissions@abertawe.ac.uk) am eich penderfyniad i ganslo'r contract hwn drwy wneud datganiad clir (e.e. llythyr drwy'r post neu e-bost). Gallwch ddefnyddio'r ffurflen ganslo enghreifftiol yn https://www .swansea.ac.uk/cy/astudio/derbyn-myfyrwyr/canslo-eich-lle/, er nad yw hyn yn ofynnol. I fodloni'r terfyn amser canslo, mae'n ddigon i chi anfon eich neges ynghylch ymarfer eich hawl i ganslo cyn i'r cyfnod canslo ddod i ben.

8.3. Os byddwch yn canslo'ch cynnig o fewn y Cyfnod Callio, byddwn yn ad-dalu'r holl daliadau a dderbyniwyd gennych chi heb oedi, ac ym mhob achos o fewn 14 niwrnod fan hwyrach ar ôl y diwrnod y dywedwch chi wrthym ni am eich penderfyniad i ganslo. Byddwn yn eich ad-dalu yn yr un modd ag y defnyddioch ar gyfer eich taliad gwreiddiol, oni bai i chi gytuno fel arall; sut bynnag, ni fyddwch yn mynd i gostau oherwydd yr ad-daliad.

8.4. Os byddwch chi'n gofyn i ni ddechrau cyflawni'r gwasanaethau (h.y. rydych chi'n cyflwyno cais i ni ychydig o amser yn unig cyn dechrau ar eich Rhaglen) yn ystod y cyfnod callio, byddwch chi'n talu i ni (a bydd hawl gan y Brifysgol ddidynnu) swm teg sy'n gymesur â'r hyn a gyflwynwyd nes y byddwch chi'n dweud wrthym ni eich bod chi'n canslo'r contract hwn, o'i gymharu â chost lawn y rhaglen. Bydd swm o'r fath yn adlewyrchu'r budd byddwch chi wedi'i gael hyd y dyddiad pan fyddwch chi'n dweud wrthym ni eich bod chi am ganslo.

8.5. Os hoffech chi ganslo'r contract wedi diwedd y cyfnod callio, cewch wneud hynny fel a amlinellwyd ym mharagraff 26.

## 9. Cofrestru ac Ailgofrestru

9.1. Mae'n ofynnol i chi gofrestru'n llawn (nid yw cofrestriadau Dros Dro wedi'u cynnwys at ddiben statws cofrestredig llawn) ac ailgofrestru ar ddechrau pob sesiwn academaidd yn unol ag amserlen benodol. Os na fyddwch yn gwneud hynny, mae'n bosib na chewch ddechrau ar eich rhaglen neu symud ymlaen â'ch rhaglen, neu gall y Brifysgol eich tynnu chi'n ôl o'r rhaglen. Os byddwch yn hwyr yn cofrestru neu'n ailgofrestru, disgwylir i chi gysylltu â'ch Coleg i gael y cynnwys a gollwyd ac ni fydd y Brifysgol yn derbyn unrhyw gyfrifoldeb am gynnwys rhaglenni neu asesiadau y byddwch yn eu colli.

9.2. Os na fyddwch chi'n cofrestru erbyn dyddiadau cofrestru'r Brifysgol, gellir eich tynnu chi'n ôl o'r rhaglen am resymau diffyg cofrestru. Er na fydd disgwyl i chi dalu Ffïoedd sy'n gysylltiedig â'r rhaglen wedi'r dyddiad pan fyddwch chi'n tynnu'n ôl, bydd disgwyl i chi dalu Ffïoedd hyd at, a chan gynnwys, y dyddiad tynnu'n ôl ac ni fyddwch chi'n gymwys am unrhyw ad-daliad am Ffïoedd a dalwyd ar gyfer gwasanaethau a ddarparwyd i chi hyd at y dyddiad pan fyddwch chi'n tynnu'n ôl.

9.3. Os gofynnir i chi dynnu'n ôl, cewch neges e-bost i'ch hysbysu bod eich cofnod wedi'i gau ac nad ydych bellach yn gymwys i barhau i astudio, i ddefnyddio cyfleusterau'r Brifysgol nac i aros mewn llety sy'n eiddo i'r Brifysgol yn unol ag Amodau a Thelerau eich cytundeb llety.

9.4. Os ydych chi'n ddeiliad fisa Haen 4/Llwybr Myfyrwyr, bydd y Brifysgol yn hysbysu'r Swyddfa Gartref am eich diffyg cofrestriad ac os bydd hyn yn digwydd, caiff eich fisa ei chanslo, a fydd yn effeithio ar eich gallu i ddod i'r DU a/neu aros yn y DU.

9.5. Os ydych wedi derbyn benthyciad myfyriwr gan lywodraeth y DU, bydd y Brifysgol yn rhoi gwybod i'r Cwmni Benthyciadau Myfyrwyr eich bod wedi tynnu'n ôl.

9.6. Os cewch hysbysiad eich bod chi wedi'ch tynnu'n ôl, gallech ailgychwyn o fewn cyfnod rhesymol

drwy gyflwyno Ffurflen Caniatâd i Gofrestru. Am ragor o wybodaeth, darllenwch https://myuni.swansea.ac.uk/enrolment/enrolment-timetable/

## 10. Rhwymedigaethau'r Brifysgol i chi

10.1. Yn ystod cyfnod y contract (fel a amlinellwyd yn y Cynnig), mae'r Brifysgol yn cytuno i ddarparu'r gwasanaethau academaidd a chysylltiedig i chi (gan gynnwys cyflwyno'r Rhaglen) gyda'r holl ofal a sgiliau rhesymol ac yn unol â'r Amodau a Thelerau.

10.2. Bydd y Brifysgol yn cyflawni ei rhwymedigaethau cytundebol i fyfyrwyr ac yn cydymffurfio â'i hymrwymiadau dan y gyfraith defnyddwyr fel a amlinellwyd gan yr Awdurdod Cystadlu a Marchnadoedd. Wrth wneud hynny, bydd y Brifysgol yn gweithio i amddiffyn budd myfyrwyr wrth ymateb i amgylchiadau megis newidiadau sylweddol o ran sut caiff cwrs ei gyflwyno neu ei gau. Mae gan y Brifysgol weithdrefnau ar waith i ymateb i'r amgylchiadau hyn a fydd yn lliniaru'r effaith bosib ar fyfyrwyr ac sy'n cydnabod anghenion unigryw ei chorff amrywiol o fyfyrwyr.

## 11. Eich rhwymedigaethau chi

11.1. Am gyfnod y contract a/neu eich rhaglen, rydych chi'n cytuno â'r canlynol:

- 11.1.1. cydymffurfio â'r holl rwymedigaethau o dan yr Amodau a Thelerau hyn (gan gynnwys y dogfennau y cyfeirir atynt o dan yr Amodau a Thelerau hyn)
- 11.1.2. cydymffurfio â Rheoliadau a Chanllaw Academaidd y Brifysgol
- 11.1.3. Talu'r ffïoedd yn unol â pharagraff 5
- 11.1.4. Gweithio'n ddiwyd ac yn effeithiol
- 11.1.5. Cyflwyno'r holl asesiadau a mynd i gyflwyniadau ac arholiadau ffurfiol yn ôl yr angen i gwblhau eich rhaglen
- 11.1.6. mynychu'r holl ddarlithoedd, seminarau a gweithgareddau addysgu eraill sy'n ofynnol ar y rhaglen gan baratoi'n briodol a chan hysbysu'r darlithydd/tiwtor perthnasol os na fyddwch chi'n gallu mynd neu os byddwch chi’n mynd i ran o'r gweithgaredd addysgu’n unig
- 11.1.7. Peidio ag amharu ar:
  - 11.1.7.1. Weithgareddau academaidd unrhyw aelod o'r gymuned academaidd
  - 11.1.7.2. gweinyddiaeth a gweithrediad cyffredinol y Brifysgol
- 11.1.8. peidio â pheryglu enw da'r Brifysgol nac achosi unrhyw atebolrwydd ar ran y Brifysgol
- 11.1.9. Peidio â chymryd rhan mewn unrhyw weithgaredd troseddol
- 11.1.10. peidio â chymryd rhan mewn unrhyw weithgaredd sy'n groes i Bolisi Cydraddoldeb y Brifysgol
- 11.1.11. peidio â difrodi, difwyno neu gamddefnyddio unrhyw eiddo'r Brifysgol, unrhyw sefydliad arall neu unrhyw fyfyrwyr yn y Brifysgol nac unrhyw aelod o'r gymuned academaidd na chyflogai'r Brifysgol
- 11.1.12. Datgan unrhyw gyfyngiadau cyfreithiol a allai effeithio ar eich astudiaethau chi a/neu ennyn risg i ddiogelu staff a myfyrwyr y Brifysgol.

## 12. Cyhuddiadau troseddol, rhybuddion neu euogfarnau ac ymddygiad a allai achosi difrod sylweddol i enw da'r Brifysgol

12.1. Os yw eich cynnig o le yn amodol ar gael gwiriad gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (GDG), bydd angen i chi gael a darparu'r wybodaeth hon yn erbyn y dyddiad a benodwyd a bydd y Brifysgol yn penderfynu a yw unrhyw euogfarnau neu wybodaeth a ddatgelir yn anghydnaws â chael lle ar y rhaglen. Os ydynt, neu os byddwch yn methu â darparu'r wybodaeth angenrheidiol gan y DBS erbyn y dyddiad penodedig, byddwn yn rhoi gwybod i chi

am hyn, yn tynnu'r cynnig o le yn ôl ac yn terfynu eich contract.

12.2. Os yw gwiriad boddhaol gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS) yn ofynnol ar gyfer eich rhaglen, bydd angen i chi gael yr wybodaeth hon a'i darparu cyn i chi gofrestru ac ailgofrestru ar gyfer pob sesiwn academaidd. Bydd y Brifysgol yn penderfynu a fydd unrhyw euogfarnau neu wybodaeth a ddatgelwyd yn anghydnaws â'ch rhaglen. Os ydynt, neu os byddwch chi'n methu â darparu'r wybodaeth angenrheidiol gan y DBS erbyn y dyddiad penodedig, gall y Brifysgol eich atal rhag astudio dros dro neu eich gorfodi i adael y Brifysgol.

12.3. Bydd gofyn i ymgeiswyr am yr holl raglenni eraill ddatgelu a oes ganddynt unrhyw euogfarnau heb eu disbyddu "perthnasol" ar ôl derbyn cynnig o le ac fel rhan o'r broses cyflwyno cais am lety. Os yw'r ymgeisydd eisoes wedi'i gofrestru fel myfyriwr, gellir ei wahardd dros dro hyd nes pennu canlyniad yr asesiad risg hwn. Mae euogfarnau "perthnasol" yn cynnwys y rhai hynny sy'n cynnwys trais neu ymddygiad bygythiol, troseddau rhywiol a chyflenwi cyffuriau; yn ogystal â throseddau sy'n ymwneud ag arfau tanio, llosgi bwriadol a therfysgaeth. Bydd gofyn i ymgeiswyr ddarparu rhagor o wybodaeth a fydd yn cael ei defnyddio fel rhan o asesiad risg mewn perthynas â chael eich derbyn i'r Brifysgol. Yn dilyn hyn, os teimlir bod yr ymgeisydd yn peri risg sylweddol i ddiogelwch myfyrwyr, staff neu ymwelwyr y Brifysgol a/neu fod ganddo'r potensial i achosi niwed difrifol i enw da'r Brifysgol, gellir tynnu cynnig o le'n ôl. Am ragor o wybodaeth, gweler: https://www.swansea.ac.uk/media/criminal-convictions-policy-2018-v2.pdf

12.4. Mae angen i'r holl fyfyrwyr hysbysu'r Brifysgol yn brydlon gyda manylion unrhyw archwiliadau gan yr heddlu, achosion llys troseddol, arestiadau troseddol, cyhuddiadau, rhybuddion a/neu euogfarnau troseddol maent yn destun iddynt (p'un a ydynt yn gysylltiedig â'r Brifysgol ai peidio), ac unrhyw amodau mechnïaeth maent yn destun iddynt rhwng dyddiad derbyn y cynnig ar gyfer mynediad i un o raglenni'r Brifysgol nes graddio/tynnu'n ôl o'r Brifysgol. Os cewch eich arestio a/neu'n cael unrhyw gyhuddiadau, rhybuddion a/neu euogfarnau troseddol, neu os byddwch yn destun amodau mechnïaeth, bydd angen i chi roi'r wybodaeth honno i Gyfarwyddwr y Gwasanaethau Addysg yn ddi-oed. Gall methu â gwneud hynny fod yn gyfystyr â thorri Gweithdrefnau Disgyblu'r Brifysgol a gellir eich cosbi yn unol â'r Gweithdrefnau hynny (gellir gweld copi ohonynt yn: https://myuni.swansea.ac.uk/cy/bywyd-academaidd/rheoliadau-academaidd/ymddygiad-a-chwynion/gweithdrefnau-disgyblu/

12.5. Bydd gofyn i ymgeiswyr am yr holl raglenni eraill gadarnhau nad ydynt yn ymwybodol o unrhyw ymddygiad blaenorol ar eu rhan a allai fod â'r potensial i achosi difrod i enw da'r Brifysgol. Gallai ymddygiad o'r fath gynnwys, heb fod yn gyfyngedig i, ymddygiad y gellir ystyried ei fod yn drosedd os caiff ei gyfeirio at yr Heddlu neu os caiff sylwadau eu postio'n gyhoeddus (er enghraifft, er nad yw'n gyfyngedig i, blatfformau'r cyfryngau cymdeithasol) y gellir ystyried ei fod yn ddigon difrïol i fod â'r potensial i achosi difrod i enw da'r Brifysgol. Efallai y bydd y gofyn i ymgeiswyr sy'n datgelu ymddygiad o'r fath ddarparu rhagor o wybodaeth i'w defnyddio fel rhan o asesiad risg mewn perthynas â derbyn myfyrwyr i'r Brifysgol. Yn dilyn hyn, os teimlir bod yr ymgeisydd yn peri risg sylweddol i ddiogelwch myfyrwyr, staff neu ymwelwyr y Brifysgol a/neu fod ganddo'r potensial i achosi niwed difrifol i enw da'r Brifysgol, gellir tynnu cynnig o le'n ôl. Am ragor o wybodaeth, gweler: https://www.swansea.ac.uk/media/criminal-convictions-policy-2018v2.pdf

## 13. Rhaglenni proffesiynol

13.1. Os ydych yn cyflwyno cais am raglen broffesiynol, gofynnir i chi, yn dibynnu ar y rhaglen, ddarparu gwybodaeth am eich iechyd, cael prawf iechyd a/neu ddarparu tystiolaeth o'ch statws imiwneiddio, a hynny erbyn dyddiadau penodedig. Mae rhaglenni felly yn cynnwys cyrsiau Meddygaeth i Raddedigion, Bydwreigiaeth, Nyrsio a Gwyddor Barafeddygol, ond heb fod yn gyfyngedig i hynny. Mae eich cynnig lle yn amodol ar fodloni'r gofynion hyn. Ar ben hynny, mae'n bosib y bydd yn ofynnol i chi lofnodi Côd Ymddygiad Proffesiynol cyn i chi gofrestru i dynnu'ch sylw at ofynion penodol yn eich rhaglen sy'n ymwneud ag addasrwydd i ymarfer. Bydd

y Brifysgol yn penderfynu a fydd yr wybodaeth a ddatgelir yn anghydnaws â chael lle ar y rhaglen. Os ydyw, neu os byddwch yn methu â darparu'r wybodaeth honno neu gael y prawf iechyd hwnnw erbyn y dyddiad penodedig, byddwn yn rhoi gwybod i chi am hyn, yn tynnu'r cynnig o le yn ôl ac yn terfynu eich contract. Darllenwch yr wybodaeth fanwl am ba raglenni mae'r gofynion hyn yn berthnasol iddynt.

13.2. Os ydych wedi'ch cofrestru ar raglen broffesiynol â gofynion 'Addasrwydd i Ymarfer', gellir gofyn i chi ddarparu gwybodaeth am eich iechyd, cael prawf iechyd a/neu ddarparu tystiolaeth o'ch statws imiwneiddio cyn i chi gofrestru neu ailgofrestru ar gyfer pob sesiwn academaidd. Bydd y Brifysgol yn penderfynu a fydd yr wybodaeth a ddatgelir yn anghydnaws â chael lle ar y rhaglen. Os ydyw, neu os na fyddwch yn darparu'r wybodaeth honno neu gael y prawf iechyd hwnnw erbyn y dyddiad penodedig, gall y Brifysgol eich atal rhag astudio dros dro neu ofyn i chi adael y Brifysgol yn unol â Rheoliadau'r Brifysgol ynghylch Addasrwydd i Ymarfer (y gellir eu darllen yma: https://myuni.swansea.ac.uk/cy/bywyd-academaidd/rheoliadau-academaidd/ymddygiad-a-chwynion/addasrwydd-i-ymarfer/

## 14. Anableddau

14.1. Os oes gennych anabledd neu gyflwr iechyd, bydd y Brifysgol yn ceisio'ch cefnogi ar bob cyfle rhesymol. Os nad ydych wedi datgelu anabledd eto, byddem yn eich annog i wneud hynny ar y cyfle cyntaf posib er mwyn i ni asesu a cheisio cefnogi eich anghenion. Oherwydd y gall anghenion myfyrwyr unigol amrywio (hyd yn oed os yw'r un cyflwr arnynt), byddem yn eich annog i gysylltu â'r Swyddfa Anableddau neu'r Swyddfa Les cyn i chi dderbyn cynnig lle er mwyn cael gwybod pa gymorth all fod ar gael i chi a pha wybodaeth y gall fod angen i ni ei threfnu. Mae rhagor o wybodaeth a manylion cyswllt ar gyfer tudalennau'r gwasanaeth yn, www.swansea.ac.uk/anabledd a www.swansea.ac.uk/wellbeing

14.2. Os byddwch yn dewis peidio â dweud wrthym am eich anabledd, neu'n dewis darparu'r wybodaeth ar fyr rybudd cyn dyddiad dechrau eich rhaglen neu arholiad/asesiad neu os nad ydych yn darparu gwybodaeth lawn amdano cyn neu yn ystod eich rhaglen astudio, byddwn yn gwneud ein gorau i'ch helpu, ond mae'n bosib na fyddwn yn gallu darparu'r ystod lawn o gymorth a allai fod ar gael i chi fel arall, neu gallai fod oedi o ran darparu'r cymorth hwnnw.

## 15. Derbyn Myfyrwyr dan Oed

15.1. Os byddwch chi rhwng 16 ac 18 oed ar adeg cofrestru, bydd angen rhiant neu ofalwr i lofnodi'r datganiad ar adeg derbyn y cynnig – bydd eich cynnig yn amodol ar dderbyn y datganiad hwn.

15.2. Gellir darllen polisi llawn y Brifysgol ar Ddiogelu Grwpiau sy’n Agored i Niwed, sy'n cynnwys y polisi ar dderbyn myfyrwyr dan oed, ar-lein yn: https://www.swansea.ac.uk/media/Safeguarding-Vulnerable-Groups-Policy-2018.docx

## 16. Sefydliadau sy'n Cydweithio

16.1. Bydd rhai rhaglenni yn cynnwys astudio a/neu weithio mewn Sefydliad sy'n Cydweithio y tu allan i'r Brifysgol. Enghreifftiau o hyn yw rhaglenni sy'n cynnwys: blwyddyn yn astudio mewn sefydliad dramor; lleoliadau mewn diwydiant neu gwmnïau; a lleoliadau mewn sefydliadau proffesiynol fel y GIG, Awdurdodau Lleol, Gwasanaeth Ambiwlans Cymru ac ati.

16.2. Os byddwch yn astudio a/neu'n gweithio mewn Sefydliad sy'n Cydweithio fel rhan o'ch rhaglen, mae'n bosib y gofynnir i chi ddarparu gwybodaeth neu fodloni gofynion penodol erbyn dyddiadau penodedig cyn dechrau'r astudiaeth/gwaith neu yn ystod y cyfnod hwnnw. Gallai'r rhain gynnwys gwybodaeth neu ofynion yn ymwneud ag yswiriant, imiwneiddio a theithebau,

ond heb fod yn gyfyngedig i hynny. Bydd y Brifysgol yn penderfynu a fydd yr wybodaeth a ddatgelir yn anghydnaws â chymryd rhan yn y gwaith neu'r astudiaeth. Os ydyw, neu os na fyddwch yn darparu'r wybodaeth y gofynnwyd amdani neu os na fyddwch yn cydymffurfio â'r gofynion hynny erbyn y dyddiad penodedig, gall y Brifysgol eich atal rhag astudio, eich symud i raglen arall, gofyn i chi adael y Brifysgol a/neu derfynu eich Contract gyda'r Brifysgol.

16.3. Os byddwch yn astudio a/neu'n gweithio mewn Sefydliad Cydweithredol fel rhan o'ch rhaglen, bydd gofyn eich bod yn cadw at bolisïau, rheoliadau a thelerau cytundebol penodol ychwanegol y Sefydliad Cydweithredol, gan gynnwys rheolau iechyd a diogelwch a rheoliadau disgyblu. Gall torri'r polisïau, y rheoliadau neu’r telerau cytundebol ychwanegol hyn beri bod y Sefydliad sy'n Cydweithio yn eich gwahardd o'r lle gwaith/astudio. Ar ben hynny, gall y Sefydliad Cydweithredol eich gwahardd o'r lle gwaith/astudio os yw'n ystyried bod hynny'n angenrheidiol oherwydd eich ymddygiad neu addasrwydd proffesiynol neu oherwydd perygl i ddiogelwch eraill. Os cewch eich gwahardd o le gwaith/astudio Sefydliad Cydweithredol ac mae cwblhau'r cyfryw waith neu astudiaeth yn un o ofynion eich rhaglen, mae'r Brifysgol yn cadw'r hawl i'ch atal rhag astudio, i'ch trosglwyddo i raglen arall, i ofyn i chi adael y Brifysgol a/neu i derfynu eich Contract gyda'r Brifysgol. Os byddwch yn torri polisïau, rheoliadau neu delerau cytundebol ychwanegol y Sefydliad sy'n Cydweithio, gellir ymdrin â hynny fel achos o dorri Rheoliadau'r Brifysgol hefyd, ac o ganlyniad gallai'r Brifysgol fynnu eich bod yn gadael, atal gwasanaethau a/neu derfynu eich Contract gyda'r Brifysgol.

## 17. Diogelu Data

17.1. Bydd y Brifysgol yn casglu ystod o wybodaeth amdanoch fel rhan o'r gweithdrefnau cyflwyno cais a chofrestru ac mewn perthynas â'ch cynnydd academaidd. Gallai hyn gynnwys data personol o natur sensitif. Defnyddir yr wybodaeth a gesglir yn bennaf er mwyn prosesu eich cais a chreu a chynnal eich cofnod myfyriwr.

17.2. Mae'r holl wybodaeth bersonol yn cael ei chadw a'i phrosesu yn unol â gofynion GDPR y DU fel yr ategir gan Ddeddf Diogelu Data 2018, y Rheoliadau Preifatrwydd a Chyfathrebu Electronig (PECR), ac unrhyw ddeddfwriaeth gysylltiedig arall.

17.3. Fel rheol, cedwir yr wybodaeth yn gyfrinachol rhwng yr ymgeisydd, y staff priodol yn y Brifysgol ac, yn achos ymgeiswyr rhyngwladol, Wasanaeth Fisâu a Mewnfudo y Deyrnas Unedig y Swyddfa Gartref.

17.4. Mewn rhai achosion gellir rhannu data o’r ceisiadau â chyrff allanol lle datblygwyd rhaglenni ar y cyd â sefydliadau trydydd parti. Ar ben hynny, er mwyn canfod ac atal twyll, mae gan y Brifysgol yr hawl i rannu gwybodaeth â sefydliadau allanol, megis yr Heddlu, awdurdodau lleol, cyrff arholi neu ddyfarnu, a'r Adran Gwaith a Phensiynau a'i hasiantaethau.

17.5. Mae angen i'r Brifysgol gyflwyno gwybodaeth mewn datganiadau statudol i gyrff megis yr Asiantaeth Ystadegau Addysg Uwch (HESA).

17.6. Gellir gweld polisi'r Brifysgol ynghylch diogelu data myfyrwyr yma: https://www.swansea.ac.uk/about-us/compliance/data-protection/student-privacy-notice/

17.7. Gellir gweld polisi'r Brifysgol ynghylch diogelu data myfyrwyr yma: https://www.swansea.ac.uk/cy/astudio/derbyn-myfyrwyr/datganiad-preifatrwydd-data-ymgeiswyr/

17.8 Os oes gennych chi unrhyw ymholiadau neu os bydd angen rhagor o fanylion arnoch chi am ddiogelu data, e-bostiwch Swyddog Diogelu Data'r Brifysgol - dataprotection@abertawe.ac.uk

## 18. Cywirdeb Gwybodaeth

18.1. Drwy dderbyn Cynnig rydych yn cadarnhau bod yr wybodaeth a ddarparwyd ar eich ffurflen gais ac mewn perthynas â'ch cais yn wir, yn gyflawn ac yn gywir, ac nad ydych wedi hepgor unrhyw wybodaeth y gofynnwyd amdani na gwybodaeth berthnasol arall. Mae'r Brifysgol yn cadw'r hawl i brofi dilysrwydd yr wybodaeth a ddarparwyd yn eich cais a/neu mewn perthynas ag ef ac mae'n cadw'r hawl i ganslo eich cais a therfynu eich contract a/neu ofyn i chi adael y Brifysgol os yw'n penderfynu bod gwybodaeth anwir, anghywir, anghyflawn a/neu gamarweiniol wedi'i darparu i gefnogi eich cais naill ai gennych chi, gan eich canolwr neu gan rywun arall sy'n gweithredu ar eich rhan.

18.2. Bydd y Brifysgol yn ceisio cadarnhau eich cymwysterau yn uniongyrchol gyda'r sefydliad neu'r corff dyfarnu. Pan na fydd cadarnhad wedi'i dderbyn cyn i chi gofrestru gyda'r Brifysgol, bydd y Swyddfa Derbyn Myfyrwyr/Gwasanaethau Addysg yn gofyn i chi ddarparu eich tystysgrif gradd wreiddiol neu gadarnhad swyddogol y dyfarnwyd gradd i chi cyn caniatáu ichi gofrestru gyda'r Brifysgol. Felly, dylech ddod â'ch tystysgrifau cymwysterau gwreiddiol a/neu drawsgrifiadau i gofrestru gyda'r Brifysgol. Mae'r Brifysgol yn cadw'r hawl i ganslo eich cais a therfynu eich contract a/neu ofyn i chi adael y Brifysgol os byddwch yn methu â darparu'r dogfennau hyn (lle gofynnwyd amdanynt) erbyn y dyddiad penodedig.

## 19. Rhaglenni Ymchwil Ôl-raddedig

19.1. Bydd gan bob rhaglen gradd ymchwil ôl-raddedig gyfnod arferol o astudiaeth dan oruchwyliaeth a elwir yn gyfnod ymgeisyddiaeth byrraf ('y dyddiad gorffen disgwyliedig' a nodir yn eich llythyr cynnig) – disgwylir i fyfyrwyr gyflwyno'u gwaith ar ddiwedd y cyfnod hwnnw. Mae dyddiad cyflwyno olaf hefyd, ac ar ôl y dyddiad hwnnw bernir bod amser y myfyrwyr wedi dod i ben ac ni chaniateir iddynt gyflwyno traethawd ymchwil ("dyddiad diwedd yr ymgeisyddiaeth" yn eich llythyr cynnig). Ar ddiwedd y cyfnod ymgeisyddiaeth byrraf disgwylir y bydd y myfyrwyr wedi cwblhau eu hymchwil a'u bod yn barod i gyflwyno'r traethawd ymchwil. Rhaid i fyfyrwyr gyflwyno'u traethawd ymchwil ar ddyddiad cyflwyno olaf eu hymgeisyddiaeth neu cyn hynny. Oni wnânt hynny, bernir bod eu hamser wedi dod i ben ac ni chaniateir iddynt gyflwyno'u traethawd ymchwil a bydd rhaid iddynt ymadael.

19.2. Yn ystod eich ymgeisyddiaeth ymchwil disgwylir i chi ddangos cynnydd academaidd boddhaol drwy asesu parhaus. Efallai y gofynnir i chi drosglwyddo i raglen dyfarniad is (os yn briodol, gweler y tabl isod) neu i roi'r gorau i astudio os ystyrir nad ydych wedi gwneud cynnydd academaidd digonol yn unol â meini prawf cynnydd y Coleg/yr Ysgol/y Brifysgol, y targedau ymchwil neu os nad ydych wedi cydymffurfio â rheoliadau'r Brifysgol ar unrhyw adeg.

| Rhaglen astudio | Dyfarniad Is |
|---|---|
| PhD | MPhil |
| Doethuriaeth Broffesiynol EngD/DNursci | MPhil, MRes neu MSc drwy Ymchwil,<br>Tystysgrif Ôl-raddedig 60 o gredydau,<br>Diploma Ôl-raddedig -120 o gredydau |
| MD | MA/MSc drwy Ymchwil |
| MPhil | MA/MSc drwy Ymchwil |
| MA/MSc drwy Ymchwil | Dim |
| MPhil drwy Waith a Gyhoeddwyd | Dim |
| PhD drwy Waith a Gyhoeddwyd | Dim |

Am ragor o fanylion am gynnydd academaidd a rhaglenni lefelau is/dyfarniadau ymadael, gweler y Canllaw i Fonitro Dilyniant i Fyfyrwyr Ymchwil:

https://myuni.swansea.ac.uk/cy/bywyd-academaidd/rheoliadau-academaidd/canllawiau-ymchwil/canllawiau-i-fonitro-cynnydd/

19.3. Ni all y Brifysgol sicrhau y bydd y goruchwylwyr disgwyliedig a enwyd yn eich cynnig ar gael gan fod symudiadau'r goruchwylwyr y tu hwnt i reolaeth y Brifysgol mewn rhai achosion. Os digwydd bod unrhyw rai o'r goruchwylwyr disgwyliedig yn gadael eu swydd ym Mhrifysgol Abertawe neu'n methu â'ch goruchwylio am reswm arall, bydd y Brifysgol yn cymryd camau rhesymol i ganfod a darparu goruchwylwyr eraill ar eich cyfer, ond ni all gynnig sicrwydd y bydd hynny'n bosib. Os na fydd hynny'n bosib, efallai y bydd angen cynnig maes ymchwil gwahanol.

19.4. Mewn achos lle mae'r cyllid yn gysylltiedig â goruchwyliwr a enwyd, ni fydd y cynnig a'r cyllid yn ddilys o hyd oni bai bod y goruchwyliwr a enwyd yn parhau yn ei swydd ac yn gallu eich goruchwylio. Nid oes sicrwydd y bydd y cyllid yn parhau os bydd y goruchwyliwr a enwyd yn gadael y Brifysgol neu'n methu â'ch goruchwylio am reswm arall. Bydd y Brifysgol yn gwneud ei gorau glas i'ch helpu, fodd bynnag, os byddwch yn penderfynu aros yn y Brifysgol neu drosglwyddo i Brifysgol arall gyda'r goruchwyliwr a enwyd.

## 20. Gofynion Iaith Saesneg

20.1. Rhaid i'r holl fyfyrwyr nad yw'r Saesneg yn famiaith iddynt ddangos eu bod wedi cyrraedd lefel benodol o Saesneg cyn dechrau eu rhaglen. Os yw amodau eich cynnig yn cynnwys gofynion iaith Saesneg, mae dwy ffordd i chi ddangos hyn:

20.1.1. Drwy brawf iaith Saesneg cymeradwy neu gymhwyster arall a restrir yn: www.swansea.ac.uk/international/students/requirements/english-requirements

20.1.2. Cwblhau Rhaglen Iaith Saesneg Gyn-sesiynol y Gwasanaeth Hyfforddiant Iaith Saesneg (ELTS) ar y lefel ofynnol cyn dechrau eich rhaglen academaidd. Mae rhagor o fanylion ar gael yn: www.swansea.ac.uk/elts

20.2. Er efallai y bydd myfyrwyr yn bodloni gofyniad iaith Saesneg sylfaenol y Brifysgol, mae'r Brifysgol yn cadw'r hawl i ofyn i fyfyrwyr nad oes ganddynt Brawf Iaith Saesneg Sicr a gymeradwywyd gan UKVI gael ei brofi wrth gyrraedd i asesu a oes angen rhagor o gymorth iaith a helpu i lywio polisi Iaith Saesneg y Brifysgol.

## 21. Fisâu a chaniatâd mewnfudo

21.1. Os ydych chi'n fyfyriwr rhyngwladol, efallai y bydd angen fisa arnoch i ganiatáu i chi astudio yn y DU. Mae'r Brifysgol yn cadw'r hawl i dynnu eich cynnig lle yn ôl neu derfynu eich contract gyda'r Brifysgol os gwelir wedi hynny nad ydych yn gymwys i gael fisa neu os bydd y gofynion fisa yn newid wedi i ni gynnig lle i chi, er enghraifft, os nad ydych chi'n bodloni gofynion UKVI, megis y rhai hynny sy'n berthnasol i allu Iaith Saesneg, dilyniant academaidd a chredadwyedd. Gweler y polisi cyffredinol ynghylch derbyn myfyrwyr am ragor o wybodaeth (sydd ar gael yn https://www.swansea.ac.uk/cy/astudio/derbyn-myfyrwyr/polisi-derbyn/

21.2. I gael rhagor o wybodaeth am faterion mewnfudo, e-bostiwch dîm Rhyngwladol@BywydCampws y Brifysgol yn International.campuslife@abertawe.ac.uk.

## 22. Blaendaliadau Ymgeiswyr Rhyngwladol

22.1. Os ydych yn ymgeisydd rhyngwladol ac mae angen Fisa Haen 4 arnoch (fisa Haen 4 gynt) i astudio yn y Deyrnas Unedig, byddwn yn gofyn i chi dalu blaendal o £4,000 tuag at eich ffïoedd dysgu fel prawf o'ch bwriad i astudio ym Mhrifysgol Abertawe cyn i ni gyhoeddi eich datganiad Cadarnhad Derbyn i Astudio (CAS).

22.2. Mae'n ofynnol i chi dalu blaendal o £4000 o leiaf tuag at eich ffioedd dysgu. Ar gyfer ymgeiswyr o wledydd dynodedig, bydd yn ofynnol i chi dalu ffioedd dysgu'r flwyddyn gyntaf yn llawn (namyn unrhyw fwrsariaeth neu ysgoloriaeth a gadarnhawyd yn ystod y cam CAS); neu bydd gofyn i chi dalu 50% o'ch ffi ddysgu ar gyfer y flwyddyn gyntaf (namyn unrhyw fwrsariaeth neu ysgoloriaeth a gadarnhawyd yn ystod y cam CAS). Am ragor o wybodaeth gweler https://www.swansea.ac.uk/admissions/deposit-deadline-faqs/#what-is-a-deposit-payment=is-expanded

22.3. Y tu allan i'r Cyfnod Callio 14 diwrnod, fel arfer ni fydd modd ad-dalu'r blaendal oni bai eich bod yn methu â bodloni gofynion mynediad y Brifysgol, gwrthodir fisa i chi astudio'n amser llawn yn y DU, nid ydych wedi teithio i'r DU, neu os ydych wedi teithio i'r DU ond heb gofrestru ar eich rhaglen astudio ac wedi dychwelyd i'ch mamwlad ers hynny. Gellir gohirio'r blaendal tan flwyddyn astudio yn y dyfodol.

22.4. Am ragor o wybodaeth, ewch i: https://www.swansea.ac.uk/cy/israddedig/ffioedd-a-chyllid/ffioedd-dysgu/polisiad-daliadau/

## 23. Eiddo Deallusol

24.1 Os byddwch yn dyfeisio neu'n datblygu dyfais, darganfyddiad, deunydd, cynnyrch, proses, meddalwedd gyfrifiadurol neu unrhyw ganlyniad neu newydd-beth arall a allai fod yn werthfawr, boed hynny â mewnbwn perthnasol gan staff academaidd y Brifysgol neu fel rhan o brosiect cydweithredol, bydd Polisi'r Brifysgol ynghylch Eiddo Deallusol a luniwyd gan ein Myfyrwyr yn berthnasol. Am ragor o wybodaeth, gweler: https://www.swansea.ac.uk/media/IP-policy.pdf

## 24. Ymddygiad ac ymgysylltu

24.1. Rhaid i chi fod yn ymwybodol o Reoliadau'r Brifysgol ynghylch ymarweddiad ac ymddygiad, uniondeb academaidd a phresenoldeb, a chydymffurfio â hwy. Gall y Brifysgol eich cosbi os na fyddwch yn cydymffurfio â'r gofynion hynny ac, mewn achosion difrifol, gall y Brifysgol eich atal rhag astudio neu ofyn eich bod yn gadael y Brifysgol. Ar ben hynny, gall y Brifysgol atal eich astudiaethau neu ofyn eich bod yn gadael y Brifysgol os yw'n credu'n rhesymol fod perygl sylweddol y gallech eich niweidio eich hun neu eraill os byddwch yn parhau â'ch rhaglen. Mae rhagor o wybodaeth am hyn ar gael yn y Rheoliadau a’r Gweithdrefnau canlynol:

- Gweithdrefnau Disgyblu – ar gael yn https://myuni.swansea.ac.uk/cy/bywyd-academaidd/rheoliadau-academaidd/ymddygiad-a-chwynion/gweithdrefnau-disgyblu/
- Y Weithdrefn Camymddygiad Academaidd - ar gael yma: www.swansea.ac.uk/cy/gwasanaethau-academaidd/canllaw-academaidd/asesu-a-chynnydd/gweithdrefn-arfer-annheg/
- Rheoliadau Addasrwydd i Ymarfer – ar gael yn https://myuni.swansea.ac.uk/cy/bywyd-academaidd/rheoliadau-academaidd/ymddygiad-a-chwynion/addasrwydd-i-ymarfer/
- Polisi Monitro Presenoldeb i Fyfyrwyr a Addysgir – y gellir ei ddarllen yma https://myuni.swansea.ac.uk/cy/bywyd-academaidd/rheoliadau-academaidd/polis%C3%AFau/polisi-monitro-cyfranogiad-myfyrwyr-a-addysgir/
- Polisi Monitro Presenoldeb ar gyfer myfyrwyr Haen 4/Llwybr Myfyrwyr - y gellir ei ddarllen yma https://myuni.swansea.ac.uk/academic-life/academic-regulations/aqs-policies/tier-4-attendance-monitoring-policy/
- Polisi Monitro Presenoldeb i Fyfyrwyr Ymchwil - y gellir ei ddarllen yma

https://myuni.swansea.ac.uk/cy/bywyd-academaidd/rheoliadau-academaidd/polis%C3%AFau/polisi-monitro-presenoldeb-ar-gyfer-ymchwil/

- Gweithdrefn Cymorth i Astudio - ar gael yn https://myuni.swansea.ac.uk/cy/bywyd-academaidd/rheoliadau-academaidd/asesu-a-chynnydd/gweithdrefn-cefnogi-i-astudio/
- Rheoliadau Asesu ar gyfer y rhaglen astudio – ynhttps://myuni.swansea.ac.uk/cy/bywyd-academaidd/rheoliadau-academaidd/

## 25. Pan ofynnir i chi adael y Brifysgol/hawl y Brifysgol i derfynu ein contract gyda chi

25.1. Gall y Brifysgol dynnu ei chynnig yn ôl, eich tynnu'n ôl o'r Brifysgol a therfynu ei chontract gyda chi, heb atebolrwydd, ar unrhyw adeg (yn unol ag unrhyw bolisïau/gweithdrefnau perthnasol) drwy hysbysiad ysgrifenedig os:

25.1.1. byddwch chi'n torri'r Amodau a Thelerau, Rheoliadau'r Brifysgol a/neu unrhyw amodau a nodwyd yn eich llythyr cynnig mewn ffordd ddifrifol

25.1.2. Os yw'n penderfynu eich bod chi, bod eich canolwr neu berson arall sy'n gweithredu ar eich rhan wedi darparu gwybodaeth anwir, anghywir, anghyflawn a/neu gamarweiniol i gefnogi a/neu mewn cysylltiad â'ch cais, gan gynnwys gwybodaeth ynghylch euogfarnau troseddol heb eu disbyddu

25.1.3. Os byddwch yn methu bodloni unrhyw amodau a/neu ofynion penodol (fel y nodir yn eich llythyr cynnig) neu, oherwydd i'ch amgylchiadau'n newid, os nad ydych yn eu bodloni mwyach

25.1.4. Os ydych yn fyfyriwr y mae angen nawdd o dan Haen 4/Llwybr Myfyrwyr System Seiliedig ar Bwyntiau UKVI arnoch:

25.1.4.1. mae gofyn i chi gael fisa i astudio yn y Deyrnas Unedig ac nid ydych wedi cael fisa erbyn dyddiad dechrau eich rhaglen

25.1.4.2. ni allwch ddarparu'r dogfennau sy'n ofynnol fel rhan o'n Trwydded Noddwr Haen 4/Llwybr Myfyrwyr UKVI

25.1.4.3. gwrthodwyd rhoi fisa i chi yn y gorffennol i astudio yn y DU

25.1.4.4. rydych wedi darparu dogfennau ac ni all y Brifysgol gadarnhau eu bod yn ddilys neu y mae'n credu eu bod yn annilys

25.1.4.5. rydych chi wedi methu â gweithredu yn unol â chyfyngiadau eich fisa Haen 4/Llwybr Myfyrwyr

25.1.4.6. rydych chi wedi methu â chydymffurfio â'r Brifysgol neu ei chynorthwyo wrth gydymffurfio ag unrhyw Reolau Mewnfudo, Haen 4/Canllawiau Llwybr Myfyrwyr UKVI neu ofynion eraill y Swyddfa Gartref sydd mewn grym o bryd i'w gilydd, gan gynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i:

25.1.4.6.3 Iaith Saesneg

25.1.4.6.3 Ymgysylltu a monitro mannau gwirio

26.1.4.6.3. Gwirio bod telerau eich fisa yn gywir

26.1.4.6.4. Rhoi gwybod am unrhyw ddiweddariadau neu newidiadau i'ch statws mewnfudo

26.1.4.6.5. Cadw eich cyfeiriad, rhif ffôn a chyfeiriad e-bost personol yn y Deyrnas Unedig yn gyfredol yn eich cofnod myfyriwr

26.1.4.6.6. Cadw at y cyfyngiadau ar oriau gwaith a nodir yn eich fisa

25.1.4.7. Yn dilyn ymchwiliad rhesymol, mae'r Brifysgol o'r farn neu'n cael ei hysbysu gan UKVI eich bod chi'n fygythiad i reoli mewnfudo neu ddiogelwch cenedlaethol

25.1.4.8. Mae eich cofrestriad parhaus yn y Brifysgol yn ein rhoi ni, neu'n fygythiad i'n rhoi ni, mewn sefyllfa sy'n groes i'n rhwymedigaethau cyfreithiol i gydymffurfio â gofynion mewnfudo'r DU ac eraill, a allai hefyd arwain at y Brifysgol yn tynnu nawdd Haen 4 yn ei ôl

25.1.5. Mae eich rhaglen yn cynnwys astudio a/neu weithio mewn Sefydliad Cydweithredol ac nid ydych chi'n bodloni gofynion perthnasol/amodau, neu nad ydych chi'n eu bodloni mwyach oherwydd newid amgylchiadau, neu eich bod chi'n torri unrhyw bolisïau, rheoliadau a thelerau cytundebol ychwanegol y Sefydliad Cydweithredol hwnnw (gweler paragraff 16 uchod)

25.1.6. Nid yw eich cynnydd academaidd yn foddhaol a gofynnir i chi dynnu'n ôl o'r rhaglen neu'r Brifysgol yn dilyn penderfyniad gan Fwrdd Arholi, Dilyniant neu Ddyfarnu'r Brifysgol

25.1.7. Gofynnir i chi dynnu'n ôl o'r Brifysgol oherwydd eich bod wedi torri rheoliadau a gweithdrefnau Disgyblu, Camymddygiad Academaidd, Addasrwydd i Ymarfer, Cymorth i Astudio a/neu Fonitro Cyfranogiad yn unol â'r rheoliadau perthnasol (gweler y dolenni i'r Rheoliadau a'r Gweithdrefnau hyn ym mharagraff 24.1 uchod);

25.1.8. Os na fyddwch chi'n talu eich ffïoedd addysgu yn unol â Pholisi Dyled Myfyrwyr y Brifysgol (a geir yn https://www.swansea.ac.uk/cy/y-brifysgol/amdanom-ni/cyllid/talu-ffioedd-dysgu-a-gwybodaeth-arall/dalu-ffioedd-rhyngwladol/)

25.1.9. Cewch eich diarddel o unrhyw sefydliad neu gwrthodir mynediad neu aelodaeth i chi mewn unrhyw sefydliad y mae'n ofynnol i chi fod yn aelod ohono neu ei fynychu fel rhan o'ch rhaglen

25.1.10. Mae eich ymddygiad, yn nhyb rhesymol y Brifysgol, yn cynrychioli risg sylweddol i'ch iechyd, eich diogelwch neu eich lles eich hun neu eraill

25.1.11. Os byddwch yn methu â chofrestru neu ailgofrestru ar eich rhaglen erbyn y dyddiadau a nodir

25.1.12. Os byddwch yn derbyn dedfryd o garchar am gyfnod o 12 mis o hyd neu fwy, neu'n hirach na gweddill eich cyfnod ymgeisyddiaeth. Byddem yn ysgrifennu atoch i roi gwybod am benderfyniad o'r fath ac yn rhoi gwybod i chi am eich hawl i ofyn am adolygiad o'r penderfyniad hwn.

25.2. Caiff penderfyniad i fynnu eich bod yn gadael y Brifysgol ei wneud yn unol â'r gweithdrefnau perthnasol a bydd yn destun i'r hawl i apelio neu i gael adolygiad. Os oes gan y Brifysgol reswm da dros ofyn i chi adael a'i bod yn gwneud hynny'n unol â'r amodau a thelerau hyn ac unrhyw weithdrefn berthnasol, ni fydd y Brifysgol yn talu iawndal i chi am golledion neu niwed y gallech eu dioddef o ganlyniad i hynny.

25.3. Pan fyddwch yn gadael bydd yn rhaid i chi ddychwelyd holl eiddo'r Brifysgol i swyddfa'r Coleg. Rhaid i chi dalu unrhyw ffïoedd sy'n ddyledus hefyd (a allai gynnwys yr holl ffïoedd yn y dyfodol). Ni fydd y camau a gymerwyd gan y Brifysgol o ran gofyn i chi dynnu'n ôl yn cyfyngu ar ei gallu i gymryd unrhyw gamau pellach y mae hawl ganddi eu cymryd yn eich erbyn.

25.4. Os bydd y Brifysgol yn dod â'ch contract i ben, bydd hefyd ganddi'r hawl i ddod ag unrhyw gontract arall sydd gennych chi gyda'r Brifysgol i ben, gan gynnwys unrhyw gontract llety.

## 26. Eich hawl chi i ddod â'r contract i ben

26.1. Gallwch chi ddod â'r contract hwn i ben drwy roi rhybudd ysgrifenedig i'r Brifysgol dan yr amgylchiadau canlynol:

26.1.1. Pan na fyddwch chi'n derbyn newidiadau mawr a wnaed gennym ni i'r Rhaglen a/neu'r Amodau a Thelerau hyn (gan gynnwys y dogfennau y cyfeirir atynt yn yr Amodau a Thelerau) yn unol â pharagraffau 3.7 i 3.10 yn amodol arnoch chi'n ein hysbysu ni nad ydych chi am dderbyn newidiadau mawr o'r fath o fewn 14 niwrnod o gael eich hysbysu am newidiadau mawr o'r fath. Mewn amgylchiadau o'r fath, ni fyddwn yn codi tâl arnoch chi am unrhyw ffïoedd yn y dyfodol ond byddwch chi'n gyfrifol am ffïoedd hyd dyddiad dod â'r contract i ben ond ni fydd gennych chi hawl i gael ad-daliad o ffïoedd a dalwyd hyd at y dyddiad pan fydd y contract yn dod i ben

26.1.2. Pan fydd y Brifysgol wedi torri'r Amodau a Thelerau hyn mewn ffordd ddifrifol ac yn

methu ag atgyweirio'r toriad difrifol hwn o fewn cyfnod rhesymol. Mewn amgylchiadau o'r fath, ni fyddwn yn codi tâl arnoch chi am unrhyw ffïoedd yn y dyfodol a byddwch chi'n gyfrifol am ffïoedd hyd at ddyddiad dod â'r contract i ben ond gallwch chi fod yn gymwys am ad-daliad o ffïoedd a dalwyd hyd at ddyddiad dod â'r contract i ben am wasanaethau nad ydych chi wedi'u derbyn

26.1.3. Pan fyddwch chi'n ymarfer eich hawl i ganslo yn ystod y cyfnod callio yn unol â pharagraff 8.

26.1.4. Os yw lefel y ffïoedd sy'n daladwy gennych wedi cynyddu, fel y manylir ym mharagraff 5.2.1, os ydych yn ymgeisydd dylech roi gwybod i'r Brifysgol eich bod am ddod â'ch contract i ben ar sail cynnydd mewn Ffïoedd. Ar yr amod nad ydych yn cofrestru, ni chodir unrhyw daliadau o ran ffïoedd. Ar gyfer myfyrwyr sy'n parhau neu'r rhai hynny sydd wedi cofrestru, gallwch ddewis terfynu eich contract ar unrhyw adeg; fodd bynnag, byddwch yn gyfrifol am yr holl ffïoedd hyd at ddyddiad gorffen eich contract yn unol â Pholisi Ad-dalu'r Brifysgol (https://www.swansea.ac.uk/cy/israddedig/ffioedd-a-chyllid/ffioedd-dysgu/polisiad-daliadau/). Ni fyddwch yn gyfrifol am unrhyw ffïoedd yn y dyfodol ar gyfer y blynyddoedd academaidd canlynol.

26.1.5. Ar unrhyw adeg heb reswm. Os gallwch chi roi rhybudd am eich bwriad i ddod â'r contract i ben cyn dechrau pob blwyddyn academaidd, ni fyddwch chi'n gyfrifol am unrhyw ffïoedd ar gyfer y blynyddoedd academaidd canlynol. Fodd bynnag, os byddwch chi am ddod â'r contract i ben hanner ffordd drwy'r flwyddyn academaidd berthnasol, mae'n bosib y byddwch chi'n gyfrifol am y ffïoedd ar gyfer y rhan o'r flwyddyn academaidd sy'n weddill, a byddwn yn trafod â chi ba lefel o ad-daliad gallech chi fod yn gymwys ar ei gyfer. Fodd bynnag, efallai na fydd hawl gennych i ad-daliad llawn o dan yr amgylchiadau hyn.

## 27. Dod â'r contract i ben ar sail dros dro

27.1. Efallai y bydd adegau pan fydd angen ichi ohirio eich astudiaethau am gyfnod dros dro oherwydd amgylchiadau esgusodol, megis salwch nei brofedigaeth. Bydd angen i chi gysylltu â'ch adran academaidd a/neu Gymorth i Fyfyrwyr os ydych chi'n cael anawsterau a allai effeithio ar eich gallu i barhau â'ch rhaglen. Os byddwch chi'n gohirio contract am gyfnod dros dro, byddwn yn eich hysbysu'n ysgrifenedig.

27.2. Efallai y bydd adegau pan fydd yn rhaid i'r Brifysgol ohirio eich astudiaethau am gyfnod dros dro a/neu'r contract hwn oherwydd amgylchiadau lle byddwch chi, neu honnir eich bod chi, wedi torri eich rhwymedigaethau yn unol â'r contract hwn, ac mae'r Brifysgol yn cadw'r hawl i ohirio eich astudiaethau am gyfnod dros dro a/neu'r contract hwn drwy ddarparu rhybudd ysgrifenedig i chi i'w gwneud hi'n bosib i'r Brifysgol gynnal ymchwiliad neu gyflwyno cosb yn seiliedig ar y gweithdrefnau a amlinellwyd yn Rheoliadau'r Brifysgol neu oherwydd y byddai'n niweidiol i'ch iechyd, eich diogelwch neu eich lles chi neu eraill i chi fynychu'r Brifysgol, ym marn resymol y Brifysgol. Mae gennych hawl i apelio neu ofyn am adolygiad o ataliad dros dro yn unol â'r Rheoliadau/Gweithdrefn perthnasol a ddilynwyd wrth osod yr ataliad dros dro.

## 28. Dirymu Dyfarniadau

28.1. Yn unol â'r Weithdrefn Camymddygiad Academaidd, mae'r Brifysgol yn cadw'r hawl i ymchwilio a phenderfynu ar honiadau o gamymddygiad academaidd ar ôl i fyfyriwr dderbyn dyfarniad. Os gwelir, ar ôl i chi dderbyn dyfarniad, eich bod wedi cyflawni camymddygiad academaidd, gallai'r Brifysgol ddirymu eich dyfarniad o ganlyniad i hynny. (Gweler y ddolen i'r Weithdrefn hon yn 20.1 uchod).

## 29. Cwynion

29.1. Mae'r Brifysgol wedi ymrwymo i ddarparu profiadau addysgol o safon uchel a gefnogir gan ystod o wasanaethau a chyfleusterau academaidd a gweinyddol. Fodd bynnag, o bryd i'w gilydd, gall pethau fynd o'u lle.

29.2. Os ydych chi'n fyfyriwr cofrestredig ac yn anfodlon ar eich dysgu a'ch addysgu neu'r cyfleusterau neu'r gwasanaethau a ddarperir gan y Brifysgol ac yn dymuno cyflwyno cwyn, dylech chi ddilyn Gweithdrefn Cwynion y Brifysgol, sydd ar gael yn https://myuni.swansea.ac.uk/cy/bywyd-academaidd/cwynion/

29.3. Gall myfyrwyr sydd wedi cwblhau holl gamau Gweithdrefn Cwynion y Brifysgol ac sy'n parhau i fod yn anfodlon ar benderfyniad ynghylch cwyn a godwyd ganddynt gyflwyno cwyn gerbron Swyddfa'r Dyfarnwr Annibynnol (OIA), sy'n gorff annibynnol sy'n ystyried cwynion myfyrwyr: www.oiahe.org.uk/

29.4. Gellir darllen y gweithdrefnau ar gyfer darpar fyfyrwyr ac ymgeiswyr sy'n anfodlon ar ganlyniad neu driniaeth cais yma: https://www.swansea.ac.uk/cy/astudio/derbyn-myfyrwyr/polisi-derbyn/

## 30. Atebolrwydd

30.1. Os bydd y Brifysgol yn methu â chydymffurfio â'i rhwymedigaethau o dan yr amodau a thelerau hyn, bydd y Brifysgol yn atebol i chi am unrhyw golled neu niwed uniongyrchol a ddioddefir gennych sy'n ganlyniad rhesymol ragweladwy i'r achos hwn o dorri'r contract gan y Brifysgol neu'i methiant i ddefnyddio gofal a sgiliau rhesymol.

30.2. Fodd bynnag, ni fydd y Brifysgol yn gyfrifol am unrhyw golledion neu niwed na ellid eu rhagweld. Mae colled neu niwed yn rhagweladwy os yw naill ai'n amlwg y bydd yn digwydd pe baem wedi torri'r Amodau a Thelerau hyn neu os, ar adeg gwneud y contract, roedd y Brifysgol a chithau'n gwybod y gallai ddigwydd, er enghraifft, os gwnaethoch chi ei drafod â'r Brifysgol cyn ymrwymo i'r contract. Ni fydd y Brifysgol yn gyfrifol, fodd bynnag, am unrhyw golled neu niwed a ddioddefir gennych y gellir eu priodoli i'ch bai chi neu i fai trydydd parti.

30.3. Ni fydd y Brifysgol yn gyfrifol am golledion busnes. Mae'r Brifysgol yn cyflenwi'r gwasanaethau hyn at ddefnydd domestig a phreifat yn unig. Os defnyddiwch y gwasanaethau hyn at ddibenion masnachol, busnes neu ailwerthu, ni fydd y Brifysgol yn atebol i chi am unrhyw elw neu fusnes a gollir, unrhyw darfu ar fusnes neu golli cyfleoedd busnes.

30.4. Ni fydd y Brifysgol yn eithrio nac yn cyfyngu ar ei hatebolrwydd am y canlynol mewn unrhyw fodd:
- 30.4.1. Marwolaeth neu anaf personol a achosir gan esgeulustod ar ei rhan
- 30.4.2. Twyll neu gamliwio twyllodrus
- 30.4.3. Unrhyw atebolrwydd na chaniateir ei gyfyngu neu ei eithrio yn unol â darpariaethau adran 57 o Ddeddf Hawliau Defnyddwyr 2015.

30.5. Nid yw'r Brifysgol yn derbyn cyfrifoldeb am unrhyw golled neu ddifrod i'ch eiddo. Fe'ch cynghorir i brynu'r yswiriant perthnasol mewn perthynas â lladrata neu risgiau eraill.

30.6. Yn unol â pharagraff 30.4, bydd atebolrwydd llawn y Brifysgol i chi (boed o ran contract, camwedd (gan gynnwys esgeulustod), torri dyletswydd statudol neu fel arall) mewn cysylltiad â'ch contract chi a'r Brifysgol yn gyfyngedig i werth y ffïoedd a dalwyd gennych chi neu ar eich rhan neu'r swm, os yn berthnasol, mae'r Brifysgol yn ei dderbyn gan ei hyswirwyr mewn perthynas â cholled benodol, p'un bynnag sy'n uwch.

## 31. Digwyddiadau y tu allan i reolaeth y Brifysgol

31.1. Ni fydd y Brifysgol yn gyfrifol am oedi sydd y tu hwnt i'w rheolaeth. Os bydd digwyddiad y tu allan i reolaeth y Brifysgol yn effeithio ar allu'r Brifysgol i gyflawni ei gwasanaethau, bydd y Brifysgol yn cysylltu â chi cyn gynted ag sy'n bosib i roi gwybod i chi.

31.2. Mewn amgylchiadau o'r fath, bydd y Brifysgol yn cymryd camau rhesymol i atal neu leihau effeithiau'r digwyddiad y tu allan i'w rheolaeth ac yn cysylltu â chi cyn gynted â phosib i roi gwybod i chi am hynny. Ar yr amod y bydd y Brifysgol yn gwneud hyn, mae'r Brifysgol yn cadw'r hawl i newid rhaglen, gan gynnwys ei hoedi neu ei gohirio, darparu fersiwn wedi'i ddiwygio ohoni (gan gynnwys dysgu ar-lein a chynnig i fyfyrwyr gymorth, gwasanaethau a chyfleusterau sy'n briodol yn ei thyb hi), caniatáu i fyfyrwyr drosglwyddo i raglen arall neu ganslo rhannau ohoni mewn perthynas â'ch rhaglen a/neu'ch contract.

31.3. Cyhyd â bod y Brifysgol yn gwneud hynny, ni fydd yn atebol am unrhyw oedi a achosir gan y digwyddiad, ond os oes risg y bydd oedi sylweddol, cewch gysylltu â'r Brifysgol i derfynu'r contract a chael ad-daliad am unrhyw wasanaethau y byddwch wedi talu amdanynt ond heb eu derbyn.

31.4. Ni fydd y Brifysgol yn atebol i chi am ddigwyddiadau y tu hwnt i'w rheolaeth na allai fod wedi'u rhagweld na'u hatal hyd yn oed pe byddai wedi cymryd gofal rhesymol. Mae digwyddiadau y tu allan i reolaeth y Brifysgol yn cynnwys (er nad ydynt yn gyfyngedig i'r rhain) gweithredu diwydiannol, diffyg galw neu oralw gan fyfyrwyr, salwch staff, newidiadau sylweddol i gyllido Addysg Uwch, tywydd garw, trychineb naturiol, clefyd epidemig neu bandemig (gan gynnwys pandemig COVID-19), tân, anrhefn sifil, aflonyddwch gwleidyddol, cyfyngiadau llywodraeth, cyfyngiadau awdurdod cyhoeddus a phryder ynghylch trosglwyddo salwch difrifol.

## 32. Materion cyffredinol

32.1. Bydd unrhyw rybudd neu gyfathrebu arall a wneir gan yr Amodau a Thelerau hyn ar ffurf ysgrifenedig a chaiff ei gyfeirio atoch chi drwy'r cyfeiriad e-bost neu bost diweddaraf a roddwyd i'r Brifysgol gennych chi, ac ystyrir ei fod wedi'i anfon a'i dderbyn yn briodol os caiff ei anfon drwy e-bost, â llaw wrth ei adael yn y cyfeiriad post neu os caiff ei anfon dosbarth cyntaf drwy'r post 48 awr ar ôl ei bostio i'r cyfeiriad hwnnw.

32.2. Mae eich contract gyda'r Brifysgol yn gontract rhyngoch chi a'r Brifysgol, a'r ddau barti hyn yn unig all ei orfodi. Nid yw Deddf Contractau (Hawliau Trydydd Partïon) 1999 yn berthnasol.

32.3. Caiff y contract ei reoli a'i ddeall yn unol â chyfreithiau Cymru a Lloegr (fel y maent yn berthnasol yng Nghymru). Trwy dderbyn eich cynnig rydych yn cytuno i gydymffurfio â'r amodau a thelerau hyn ac i ufuddhau i awdurdodaeth anghyfyngedig llysoedd Cymru a Lloegr i ddatrys unrhyw anghydfod a all godi o'r contract neu mewn perthynas ag ef.

32.4. Os cyfyd fod unrhyw ddarpariaeth yn y contract yn anghyfreithlon, yn ddi-rym a/neu yn anorfodadwy yn llawn neu'n rhannol gan unrhyw lys neu awdurdod cymwys arall, bydd y contract yn parhau i fod yn ddilys o ran y darpariaethau eraill sydd wedi'u cynnwys ynddo a/neu weddill y ddarpariaeth dan sylw.

32.5. Os byddwch chi'n torri telerau ein contract ac mae'r Brifysgol yn dewis peidio â mynnu eich bod chi'n cyflawni yn sgil eich rhwymedigaeth o dan y contract hwn, neu os na fyddwn ni'n gorfodi ein hawliau yn eich erbyn, neu os byddwn ni'n oedi rhag gwneud, nid yw hynny'n golygu ein bod ni wedi ildio ein hawliau yn eich erbyn ac ni fydd yn golygu bod yn rhaid i chi gydymffurfio â'r rhwymedigaethau hynny.

## 33. Hawliau defnyddwyr pellach

33.1. Fel defnyddiwr bydd gennych hawliau cyfreithiol bob amser (gan gynnwys rhwymedïau statudol) mewn perthynas â gwasanaethau nas cyflawnir â sgiliau a gofal rhesymol, neu os bydd y deunyddiau a ddefnyddir gan y Brifysgol yn ddiffygiol neu heb fod yn unol â'r disgrifiad.

33.2. Am ragor o fanylion am eich hawliau cyfreithiol (gan gynnwys rhwymedïau statudol), gallwch fynd i'ch Canolfan Cyngor Ar Bopeth leol, eich Swyddfa Safonau Masnach leol, neu ewch i wefan yr Awdurdod Defnyddwyr a Marchnadoedd.

## 34. Ymholiadau

34.1. Dylech gyfeirio ymholiadau ynghylch yr amodau a thelerau hyn at y canlynol:

34.1.1. Cyn cofrestru: study@abertawe.ac.uk

34.1.2. Ar ôl i chi gofrestru: myunihub@abertawe.ac.uk

**Diweddarwyd ddiwethaf ym mis Tachwedd 2024**

# Telerau ac Amodau Prifysgol Abertawe

**Mae'r Telerau ac Amodau hyn yn gymwys i ddarparu gwasanaethau academaidd a gwasanaethau cysylltiedig i chi gan y Brifysgol mewn cysylltiad â'ch lle ar raglen astudio. Mae'r Telerau ac Amodau hyn yn rhan o'r contract rhyngoch chi a'r Brifysgol, ac yn ymgorffori dogfennaeth y cyfeirir ati yn y Telerau ac Amodau hyn. Efallai y byddwch yn ymrwymo i gontractau ychwanegol gyda'r Brifysgol ar gyfer gwasanaethau eraill, megis llety, aelodaeth o gampfa neu wasanaethau arlwyo, ond bydd y rhain yn cael eu llywodraethu gan delerau ac amodau ar wahân.**

**Mae'r Telerau ac Amodau hyn yn darparu gwybodaeth bwysig am hawliau a chyfrifoldebau'r Brifysgol a chi o dan y contract. Gwnewch yn siŵr eich bod yn darllen y Telerau ac Amodau hyn yn ofalus cyn i chi dderbyn ein cynnig. Os oes gennych unrhyw gwestiynau am y Telerau ac Amodau hyn neu os oes angen unrhyw fanylion pellach arnoch, cysylltwch â'r Brifysgol drwy e-bost, study@swansea.ac.uk.**

**Bydd y contract rhyngoch chi a'r Brifysgol yn cael ei ffurfio pan fyddwch yn derbyn ein cynnig.**

**Er y dylech ddarllen y cyfan o'r Telerau ac Amodau hyn, hoffai'r Brifysgol dynnu eich sylw at baragraffau 3, 5, 25, 26, 27, 30 a 31 yn benodol sy'n cynnwys gwybodaeth bwysig am ein hawliau i newid y Rhaglen a/neu'r Telerau ac Amodau a dogfennau eraill, eich cyfrifoldeb am Ffioedd, ein hatebolrwydd a'n hawliau i ddod â'r contract gyda chi i ben.**

## 1. Gwybodaeth bwysig amdanom ni

1.1. Mae'r telerau ac amodau hyn ("**Telerau ac Amodau**") yn gymwys i chi os ydych wedi cael cynnig gan Brifysgol Abertawe (y **"Brifysgol")** yn nodi'r manylion a'r amodau ar gyfer cael eich derbyn i un o raglenni'r Brifysgol sy'n dechrau yn 2026 neu wedi ei ohirio tan 2027.

1.2. Mae'r Telerau ac Amodau hyn yn manylu ar y berthynas rhwng y Brifysgol ("ni", "ein") a chi.

1.3. Mae'r Brifysgol yn gorfforaeth annibynnol â statws elusennol a sefydlwyd gan Siarter Frenhinol gyda'r rhif cofrestredig RC000639 ac sydd â'i swyddfa gofrestredig ym Mharc Singleton, Abertawe, SA2 8PP.

## 2. Derbyn eich Cynnig

2.1. Byddwn yn anfon llythyr cynnig atoch yn manylu ar ein cynnig o le ar raglen astudio gyda ni. **Lle bo hynny'n gymwys**, bydd y llythyr cynnig yn eich cyfeirio at wefan UCAS sydd hefyd yn cynnwys gwybodaeth bwysig am ein cynnig i chi. Gyda'i gilydd, mae'r llythyr cynnig a'r wybodaeth a ddarperir ar wefan UCAS yn cynrychioli ein **"Cynnig"** i chi.



CMA_Telerau_ac_Amodau_Cymraeg_v26/27_0000054

Bydd y Cynnig yn nodi gwybodaeth bwysig am:

2.1.1. Y rhaglen rydych chi wedi dewis ei hastudio gan gynnwys gwybodaeth berthnasol sy'n ymwneud â chyflwyno'r rhaglen (y **"Rhaglen"**)
2.1.2. Manylion am ffioedd dysgu sy'n daladwy gennych am gyfnod y rhaglen (y **"Ffioedd"**)
2.1.3. Hyd y Rhaglen (gan gynnwys y dyddiad cychwyn)
2.1.4. Manylion ble a sut y bydd y Rhaglen yn cael ei chyflwyno
2.1.5. Manylion unrhyw amodau a allai fod yn berthnasol i'r Cynnig
2.1.6. Manylion y gwasanaethau academaidd a bugeiliol y bydd y Brifysgol yn eu darparu i chi yn ystod cyfnod y Rhaglen
2.1.7. Gwybodaeth arall sy'n ymwneud â'r Rhaglen a'ch astudiaethau gyda'r Brifysgol.

2.2. Gallwch dderbyn eich Cynnig drwy ddilyn y camau a nodir yn eich Cynnig. Rhaid i chi wneud hyn erbyn y dyddiad a roddir i chi gan UCAS neu, os nad ydych yn gwneud cais drwy UCAS, erbyn y dyddiad a nodir yn eich Cynnig.

2.3. Os byddwch yn penderfynu derbyn y Cynnig, bydd contract yn cael ei ffurfio rhyngoch chi a'r Brifysgol ar ôl i chi dderbyn y cynnig ac ar ôl i chi gydymffurfio ag unrhyw amodau a nodir yn y Cynnig. Ystyrir eich bod wedi derbyn y cynnig pan fyddwch yn derbyn y Cynnig gan ddefnyddio'r system ymgeisio ar-lein briodol h.y., Porth Dysgwyr neu system UCAS, neu os nad yw'r Cynnig yn cael ei wneud trwy ein system ymgeisio ar-lein neu drwy UCAS, drwy gadarnhau'n ysgrifenedig eich bod yn derbyn y Cynnig.

2.4. Mae eich hawliau a'ch rhwymedigaethau i'r Brifysgol a hawliau'r Brifysgol a'i rhwymedigaethau i chi sy'n deillio o'r contract hwnnw wedi eu nodi yn y dogfennau a restrir isod sy'n ffurfio Telerau ac Amodau eich contract myfyriwr. Dylech felly ddarllen y ddogfen hon (a'r rhai a restrir isod) yn ofalus ac ymgyfarwyddo'n llawn â'i chynnwys (ynghyd â chynnwys y dogfennau, y rheoliadau, y polisïau a'r gweithdrefnau y mae'n cyfeirio atynt), cyn derbyn eich cynnig.

- Y Telerau ac Amodau hyn ac unrhyw ddogfennau y cyfeirir atynt yn y Telerau ac Amodau hyn
- Eich Llythyr Cynnig
- Rheoliadau a Rheoliadau Academaidd y Brifysgol sydd ar gael yn: https://hwb.swansea.ac.uk/cy/bywyd-academaidd/rheoliadau-academaidd/
- Manylebau'r rhaglen, a ddangosir ar gyfer pob rhaglen israddedig yn: https://www.swansea.ac.uk/cy/israddedig/cyrsiau/ ac ar gyfer pob rhaglen ôl-raddedig a addysgir yn: https://www.swansea.ac.uk/cy/ol-raddedig/addysgir/

## 3. Newidiadau i'ch Rhaglen Astudio a/neu'r Telerau ac Amodau hyn

3.1. Mae eich Cynnig o le i astudio yn y Brifysgol yn seiliedig ar y canlynol:

3.1.1. Y wybodaeth allweddol ddiweddaraf sydd i'w gweld ar dudalen berthnasol adran Rhaglenni ein gwefan (ar ddyddiad derbyn eich cynnig). Mae'r wybodaeth yn cynnwys modiwlau craidd y Rhaglen a gall gynnwys syniad o fodiwlau dewisol tebygol; ac
3.1.2. Y fersiynau cyfredol o Reoliadau Academaidd y Brifysgol - https://hwb.swansea.ac.uk/cy/bywyd-academaidd/rheoliadau-academaidd/

3.2. Bydd y Brifysgol yn gwneud pob ymdrech resymol i gyflwyno eich Rhaglen yn unol â manyleb y Rhaglen ac fel y disgrifir yn y prosbectws printiedig neu ar-lein perthnasol ar gyfer y flwyddyn academaidd.

3.3. Bydd gan y Brifysgol hawl i wneud newidiadau rhesymol i'w rhaglenni lle bydd hynny'n galluogi'r Brifysgol i ddarparu rhaglen gyfatebol neu brofiad addysgol o ansawdd gwell i fyfyrwyr sydd wedi eu cofrestru ar y rhaglen. Dyma enghreifftiau o newidiadau o'r fath:

3.3.1. Cynnwys a maes llafur y rhaglen lle mae datblygiadau yn y maes pwnc yn gwneud hynny'n angenrheidiol
3.3.2. Amserlen, lleoliad y rhaglen a nifer y dosbarthiadau
3.3.3. Dull cyflwyno'r rhaglen, gwasanaethau a chyfleusterau
3.3.4. Strwythur a/neu amseriad y flwyddyn academaidd
3.3.5. Trefniadau a dulliau arholi ac asesu

3.4. Mae enghreifftiau o amgylchiadau lle y bydd angen o bosibl i'r Brifysgol wneud newidiadau o'r fath yn cynnwys:

3.4.1. I fodloni gofynion corff achredu, proffesiynol, statudol a/neu reoleiddio
3.4.2. Fel sy'n ofynnol gan y gyfraith, polisi'r llywodraeth, canllawiau neu benderfyniadau llys cymwys neu gorff tebyg arall
3.4.3. Ymateb i arferion da'r sector neu brosesau gwella ansawdd
3.4.4. Cadw Rhaglenni'n gyfoes trwy ddiweddaru arferion neu feysydd astudio
3.4.5. Amgylchiadau y tu allan i reolaeth resymol y Brifysgol, megis aelod allweddol o staff yn gadael y Brifysgol neu ddim yn gallu addysgu (lle mae'r rhaglen neu'r modiwl yn dibynnu ar arbenigedd y person hwnnw)
3.4.6. Gwella Ystad a Chyfleusterau'r Brifysgol a gwaith wedi ei gynllunio i adleoli Ysgolion/Colegau neu Adrannau
3.4.7. Amgylchiadau eraill y tu allan i reolaeth resymol y Brifysgol gan gynnwys (ond heb fod yn gyfyngedig i) gweithredu diwydiannol, tywydd garw, trychineb naturiol, tân, anhrefn sifil, aflonyddwch gwleidyddol, cyfyngiadau'r llywodraeth a/neu awdurdodau cyhoeddus, pryder critigol am drosglwyddo salwch difrifol neu glefyd epidemig neu bandemig sy'n gwneud rhaglen yn anniogel i'w darparu

3.5. Efallai y bydd angen gwneud newidiadau i Raglenni neu fodiwlau hefyd lle nad yw isafswm nifer y myfyrwyr sydd eu hangen i sicrhau profiad addysgol da neu brofiad da i fyfyrwyr wedi ei fodloni. Sylwer, mewn rhai amgylchiadau eithriadol, efallai y bydd rhaglenni yn cael eu tynnu'n ôl (cyn iddynt ddechrau) am y rheswm hwn.

3.6. Efallai y bydd angen i ni wneud mân newidiadau i'r Rhaglen neu'r Telerau ac Amodau hyn (gan gynnwys y dogfennau y cyfeirir atynt yn y Telerau ac Amodau hyn) o bryd i'w gilydd. Mae enghreifftiau o fân newidiadau yn cynnwys (ond heb fod yn gyfyngedig i) newidiadau rhesymol i amserlen y Rhaglen, nifer y dosbarthiadau/darlithoedd neu weithgareddau addysgu eraill, sut mae gwasanaethau TG neu wasanaethau llyfrgell neu wasanaethau eraill yn cael eu darparu i chi, dulliau cyflwyno neu asesu'r Rhaglen, modiwlau cynnwys neu faes llafur y Rhaglen, lleoliad cyflwyno'r Rhaglen, newidiadau gweithdrefnol, newidiadau i reoliadau, codau ymarfer, polisïau a gweithdrefnau.

3.7. Pan fo newidiadau'n fân, byddwn yn cymryd camau rhesymol i'ch hysbysu am unrhyw newidiadau (yn ysgrifenedig neu drwy e-bost fel rheol, ond gall hyn gynnwys diweddaru dogfennau a/neu ddeunydd y Rhaglen a rhoi'r dogfennau hynny ar gael ar wefan y Brifysgol a/neu roi cyhoeddusrwydd drwy ddulliau eraill fel eich bod yn ymwybodol o'r newidiadau hynny) a byddwn yn rhoi cymaint o rybudd i chi ag y credwn sy'n briodol o dan yr amgylchiadau. Lle bo hynny'n bosibl, byddwn yn eich hysbysu ymlaen llaw, ond efallai na fydd hyn bob amser yn bosibl. Bydd y Brifysgol hefyd yn ceisio lleihau unrhyw aflonyddwch arnoch chi.

3.8. Mewn amgylchiadau eithriadol, efallai y bydd angen i ni wneud newidiadau mawr i'r Rhaglen a/neu'r Telerau ac Amodau (gan gynnwys y dogfennau y cyfeirir atynt yn y Telerau ac Amodau hyn) – mae'r rhain yn newidiadau nad ydynt yn rhai mân ac sy'n newid y Rhaglen a/neu'r Telerau ac Amodau hyn yn sylweddol. Mae enghreifftiau o newidiadau mawr yn cynnwys (ond heb fod yn gyfyngedig i) newidiadau sylweddol i'r ffordd rydym yn addysgu, cyflwyno a/neu asesu Rhaglen (er enghraifft, newid sylweddol yng nghydbwysedd yr asesu o waith cwrs i arholiad ar draws Rhaglen), newidiadau i deitl eich dyfarniad neu Raglen, newidiadau sylweddol i leoliad cyfleusterau addysgu eich Rhaglen (megis symud y Rhaglen i leoliad hollol wahanol nad yw o fewn pellter rhesymol o'r lleoliad lle cyflwynwyd y Rhaglen yn flaenorol) neu benderfyniad i uno Rhaglenni neu ailstrwythuro'r Rhaglen yn sylweddol mewn modd arall.

3.9. Pan fydd newidiadau'n sylweddol (hynny yw, maent yn newid y Rhaglen neu'r Telerau ac Amodau hyn yn sylweddol), bydd y Brifysgol yn ymgynghori â chi cyn gwneud y newid. Bydd ymgynghoriadau o'r fath yn cael eu cynnal naill ai trwy'r Pwyllgor Partneriaeth ac Ymgysylltu â Myfyrwyr neu gyda myfyrwyr unigol yr effeithir arnynt trwy e-bost gydag ymatebion i'w hanfon at Gynrychiolwyr Myfyrwyr ar gyfer trafodaeth ar y cyd yn y pwyllgor.

3.10. Os na fyddwch yn ein hysbysu nad ydych yn cytuno â'r newid mawr rydym yn bwriadu ei wneud o fewn cyfnod rhesymol o amser i gael eich hysbysu (ac mewn unrhyw achos o fewn 14 diwrnod i gael eich hysbysu), byddwn yn ystyried eich bod yn hapus i fwrw ymlaen â'ch Rhaglen ar sail y newid perthnasol sy'n cael ei wneud.

3.11. Os nad ydych yn cytuno â newid mawr rydym yn penderfynu ei wneud i'r Rhaglen neu'r Telerau ac Amodau hyn ac rydych wedi rhoi gwybod i ni cyn i ni wneud y newid hwnnw nad ydych yn cytuno â'r newid mawr, cewch ddod â'r contract hwn i ben ac efallai y bydd gennych hawl i ad-daliad priodol o'r Ffioedd rydych chi wedi eu talu i'r Brifysgol am wasanaethau nad ydych wedi eu derbyn. Byddwn hefyd yn ceisio cynnig lle i chi ar raglen amgen yn y Brifysgol fel y bo'n briodol.

3.12. Fel arfer, bydd newidiadau (boed fach neu fawr) yn dod i rym ar ddechrau'r flwyddyn academaidd nesaf, ond gall rhai newidiadau gael eu cyflwyno yn ystod y flwyddyn academaidd gyfredol honno neu ar unwaith lle mae'r Brifysgol yn ystyried yn rhesymol bod hyn er budd gorau myfyrwyr, ei fod yn ofynnol yn ôl y gyfraith neu o dan amgylchiadau eithriadol eraill.

3.13. Efallai y bydd adegau hefyd y bydd angen i ni dynnu'r Rhaglen yn ôl neu uno neu gyfuno'r Rhaglen â Rhaglenni eraill. Os caiff eich Rhaglen ei thynnu'n ôl, ei huno neu ei chyfuno â Rhaglenni eraill neu os gwneir newidiadau mawr i'ch Rhaglen ar ôl i chi dderbyn eich cynnig, bydd y Brifysgol yn cymryd camau rhesymol i roi hysbysiad cynnar i chi am dynnu'r rhaglen yn ôl / y newidiadau hynny a lleihau eu heffaith drwy gynnig Rhaglen amgen addas (os yw ar gael ac ar yr amodol eich bod yn bodloni'r gofynion mynediad ar gyfer y Rhaglen) neu eich helpu i ddod o hyd i Raglen neu brifysgol amgen. Bydd gennych hawl hefyd i dynnu'n ôl o'ch Rhaglen a gwneud cais am ad-daliad neu ad-daliad rhannol o unrhyw Ffioedd rydych wedi eu talu.

3.14. Mae rhagor o wybodaeth ynglŷn â'n Hymwadiad Rhaglen ar gael yma: https://www.swansea.ac.uk/cy/astudio/ymwadiad-rhaglen/

3.15. Bydd gan y Brifysgol hawl i newid y Ffioedd yn unol â pharagraff 5.2 hefyd.

## 4. Statws Ffioedd

4.1. Bydd y Brifysgol yn asesu eich statws ffioedd yn seiliedig ar y wybodaeth a ddarparwyd gennych yn eich cais neu gyda'ch cais mewn perthynas â *Rheoliadau Addysg (Ffioedd Myfyrwyr, Dyfarniadau, a Chyrsiau a Phersonau Cymhwysol) (Cymru) 2013* yn unol â'i Pholisi Asesu Ffioedd.

4.2. Os nad yw eich statws ffioedd yn glir o'r wybodaeth a ddarparwyd gennych gyda'ch cais, byddwn yn gofyn i chi ddarparu rhagor o wybodaeth fel y gellir cadarnhau eich statws ffioedd. Yn y cyfamser, bydd eich cynnig yn dyfynnu'r gyfradd ffioedd "Y DU" is a'r gyfradd ffioedd "Rhyngwladol" uwch nes bod eich statws wedi ei gadarnhau.

4.3. Os ydych yn anghytuno ag asesiad y Brifysgol o'ch statws ffioedd, mae gennych yr hawl i ofyn i'r Brifysgol ail-asesu yn unol â'r Polisi Asesu Ffioedd. Os ydych yn anghytuno â'r ailasesiad hwnnw, cewch apelio yn erbyn y penderfyniad hwnnw yn unol â'r Polisi Asesu Ffioedd.

## 5. Ffioedd a Thalu

5.1. Mae'r Ffioedd a nodir yn eich Cynnig yn gymwys i flwyddyn gyntaf eich rhaglen yn unig.

5.2. Bydd ffioedd Myfyrwyr Rhyngwladol a Myfyrwyr Ôl-raddedig (a Addysgir) y DU yn cynyddu 3% bob blwyddyn ar ôl blwyddyn gyntaf y Rhaglen. Bydd ffioedd myfyrwyr Ôl-raddedig (Ymchwil) y DU yn cynyddu ym mhob blwyddyn o Ymchwil, yn unol ag argymhellion UKRI

5.2.1. Gall ffioedd Myfyrwyr Israddedig Llawn Amser y DU gael eu cynyddu yn y blynyddoedd dilynol ar ôl y flwyddyn gyntaf o astudio gan gynnydd sy'n gysylltiedig â chwyddiant a bennir gan Lywodraeth Cymru. Er enghraifft, os yw eich Ffioedd ym Mlwyddyn Un yn £9,535 a bod Llywodraeth Cymru yn penderfynu bod y cynnydd sy'n gysylltiedig â chwyddiant yn 3% y flwyddyn, bydd y Brifysgol yn cynyddu eich Ffi i £9,821.05 ar gyfer Blwyddyn 2 a £10,115.68 ar gyfer Blwyddyn 3. Byddwn yn cadarnhau unrhyw gynnydd o'r fath gyda chi bob blwyddyn a chyn gynted â phosibl ar ôl iddo gael ei gadarnhau gan Lywodraeth Cymru.

5.3. Gellir codi ffi ar ben eich ffi ddysgu i dalu costau offer arbenigol neu gostau labordy sy'n ofynnol ar gyfer rhaglenni ymchwil. Os codir ffi mainc, bydd y swm yn cael ei bennu gan eich goruchwyliwr a'i gynnwys yn eich Cynnig.

5.4. Trwy dderbyn y Cynnig, rydych yn cytuno i dalu'r holl Ffioedd pan fyddant yn ddyledus (gan gynnwys unrhyw gostau a threuliau ychwanegol fel ffioedd ailsefyll). Eich cyfrifoldeb chi yw sicrhau bod eich ffioedd a'r holl dreuliau sy'n gysylltiedig â'ch rhaglen yn cael eu talu'n llawn ac yn brydlon. Gall gofynion y Brifysgol ynghylch talu ffioedd fod yng nghymal 5.5.

5.5. Gellir dod o hyd i wybodaeth am ffioedd, gan gynnwys manylion ynghylch sut i drefnu talu eich ffioedd, yn:

5.5.1. Ar gyfer Israddedigion y DU
5.5.2. Ar gyfer Ôl-raddedigion yn y DU
5.5.3. Ar gyfer myfyrwyr yr UE/Rhyngwladol

5.6. Os ydych chi'n fyfyriwr noddedig, eich cyfrifoldeb chi yn unig o hyd yw sicrhau bod yr holl ffioedd yn cael eu talu'n llawn a bod eich noddwr yn talu unrhyw ddyled sy'n ddyledus i'r Brifysgol mewn perthynas â'r ffioedd sy'n perthyn i chi yn brydlon. Os nad yw'ch noddwr yn talu'r Ffioedd i ni pan fyddant yn ddyledus, byddwch chi'n gyfrifol am dalu'r Ffioedd sy'n ddyledus.

5.7. Oni bai bod eich llythyr cynnig yn dweud fel arall, nid yw'r ffi ddysgu a ddyfynnir yn eich llythyr cynnig yn cynnwys unrhyw ffioedd am lety preswyl, ailwneud cyfnodau o astudio, estyniadau i'r cyfnod astudio dynodedig, ffioedd ailgyflwyno, costau teithio neu unrhyw dreuliau amrywiol eraill a allai fod yn gysylltiedig â'ch rhaglen astudio (megis cost teithiau maes, llyfrau ac offer).

Nodir manylion unrhyw dreuliau amrywiol rydych yn debygol o fynd iddynt ar eich rhaglen ar ein gwefan ar gyfer rhaglenni israddedig yn: https://www.swansea.ac.uk/cy/israddedig/cyrsiau/

ac ar gyfer rhaglenni ôl-raddedig a addysgir yn: https://www.swansea.ac.uk/cy/ôl-raddedig/addysgir/

5.8. Os oes gennych unrhyw gwestiynau am Ffioedd neu os ydych angen rhagor o fanylion am dalu eich Ffioedd, dylech gysylltu â'r Tîm Cyllid ym Mhrifysgol Abertawe https://www.swansea.ac.uk/cy/y-brifysgol/amdanom-ni/cyllid/talu-ffioedd-dysgu-a-gwybodaeth-arall/ Os ydych chi'n cael unrhyw anawsterau wrth dalu eich Ffioedd, dylech gysylltu â'r Tîm Cynghori Ariannol yn yr Adran Gwasanaethau i Fyfyrwyr – mae'n bosibl y gallant eich helpu gyda Chronfeydd Caledi a chyngor (https://www.swansea.ac.uk/cy/arian-bywydcampws/y-tim-cyngor-arian-sgwrs-fyw/)

## 6. Methu â thalu ffioedd

6.1. Os nad ydych yn talu'ch Ffioedd yn llawn neu'n brydlon, gall y Brifysgol osod cosbau a nodir yn y Rheoliadau Academaidd a/neu'r Polisi Dyled Myfyrwyr (sy'n cynnwys yr hawl i'ch tynnu'n ôl o'r Rhaglen a dod â'r contract hwn gyda chi i ben os byddwch yn methu â thalu'r Ffioedd yn brydlon sawl tro). O ganlyniad, efallai na chaniateir i chi symud ymlaen ar eich rhaglen, neu efallai y cewch eich tynnu'n ôl o'r Brifysgol. Os ydych wedi cwblhau eich rhaglen, efallai na chaniateir i chi raddio a/neu efallai na fydd eich tystysgrif gradd / datganiad academaidd yn cael ei ddarparu i chi nes bod gweddill eich ffioedd wedi eu talu. Caiff y Brifysgol hefyd gymryd camau cyfreithiol yn eich erbyn i adennill unrhyw ffioedd sydd heb eu talu, a gallech fynd i ragor o gostau. Gellir dod o hyd i ragor o wybodaeth ar ein tudalennau gwe: https://www.swansea.ac.uk/cy/y-brifysgol/amdanom-ni/cyllid/talu-ffioedd-dysgu-a-gwybodaeth-arall/polisi-dyled-myfyrwyr/

## 7. Gohirio eich dyddiad cychwyn

7.1. Bydd ceisiadau i ohirio mynediad i'r flwyddyn ganlynol/pwynt mynediad nesaf yn cael eu hystyried ar sail unigol. Sylwch nad yw rhai rhaglenni yn caniatáu mynediad gohiriedig. Dylid gwneud ceisiadau i ohirio mynediad yn ysgrifenedig i'r Swyddfa Derbyniadau yn study@swansea.ac.uk.

7.2. Mae'r ffioedd dysgu a nodir yn eich Cynnig yn seiliedig ar y dyddiad dechrau 2025/26 a ddangosir yn y llythyr cynnig a byddant yn gymwys am y flwyddyn astudio honno. Fodd bynnag, os byddwch yn gofyn wedyn am ohirio eich mynediad i'r flwyddyn ganlynol, mae'n debygol y bydd eich ffioedd dysgu yn fwy na'r rhai a nodir yn eich llythyr cynnig. I fyfyrwyr y DU, gall hyn fod oherwydd newidiadau ym mholisi'r Llywodraeth. Dylai myfyrwyr rhyngwladol gysylltu â'r Swyddfa Derbyniadau am ragor o wybodaeth.

7.3. Os byddwch yn gwneud cais am le ar gyfer y flwyddyn ganlynol o'r cychwyn cyntaf, efallai na fydd y Ffioedd ar gyfer y flwyddyn ganlynol ar gael a bydd eich cynnig yn dyfynnu ffioedd y flwyddyn gyfredol fel canllaw. Mae'r ffioedd yn debygol o gynyddu ar gyfer y flwyddyn ganlynol, a byddwch yn cael eich hysbysu o'r ffioedd dysgu cywir sy'n daladwy wrth iddynt ddod ar gael.

7.4. Trwy ohirio eich mynediad i'r flwyddyn ganlynol, rydych yn derbyn y gallai fod yn ofynnol i'r Brifysgol amrywio gwasanaethau, cyfleusterau, disgrifiad, cynnwys, dull a/neu leoliad cyflwyno a/neu amserlen eich rhaglen. Os bydd hyn yn wir, bydd y Brifysgol yn eich hysbysu o unrhyw amrywiadau perthnasol cyn gynted ag y bydd yn rhesymol ymarferol a byddwch yn cael cyfle i ganslo eich derbyniad (a'ch contract gyda'r Brifysgol) os ydych yn anhapus â'r newidiadau i'r rhaglen.

7.5. Mae rhagor o wybodaeth ar gael ar ein tudalennau gwe – https://www.swansea.ac.uk/media/Deferral-Policy-Welsh.pdf

## 8. Eich hawl statudol i ganslo eich derbyniad

8.1. Ar ôl i chi dderbyn eich Cynnig, mae gennych yr hawl i ganslo'ch derbyniad o fewn 14 diwrnod ar ôl derbyn y Cynnig (y **"Cyfnod Ailfeddwl"**) heb roi unrhyw reswm o dan Reoliadau Contract Defnyddwyr (Canslo Gwybodaeth a Thaliadau Ychwanegol) 2013.

8.2. I arfer eich hawl i ganslo, rhaid i chi roi gwybod i'r Swyddfa Derbyniadau (e-bost: study@swansea.ac.uk) o'ch penderfyniad i ganslo'r contract hwn drwy ddatganiad clir (e.e., llythyr drwy'r post neu e-bost). Gallwch ddefnyddio'r ffurflen ganslo enghreifftiol yn https://www.swansea.ac.uk/cy/astudio/derbyn-myfyrwyr/canslo-eich-lle/, ond nid yw'n orfodol. Er mwyn cwrdd â'r dyddiad cau canslo, mae'n ddigon i chi anfon eich hysbysiad eich bod yn arfer eich hawl i ganslo cyn i'r cyfnod canslo ddod i ben.

8.3. Os byddwch yn canslo'ch derbyniad o fewn y Cyfnod Ailfeddwl, byddwn yn ad-dalu'r holl daliadau a gafwyd gennych heb oedi di-angen, ac mewn unrhyw achos heb fod yn hwyrach na 14 diwrnod ar ôl y diwrnod i chi ein hysbysu o'ch penderfyniad i ganslo. Byddwn yn gwneud yr ad-daliad gan ddefnyddio'r un dull talu ag y gwnaethoch ei ddefnyddio ar gyfer y trafodiad cychwynnol, oni bai eich bod wedi cytuno'n benodol fel arall; mewn unrhyw achos, ni fyddwch yn mynd i unrhyw ffioedd oherwydd yr ad-daliad.

8.4. Os byddwch yn gofyn i ni ddechrau cyflawni gwasanaethau (h.y. rydych chi'n gwneud cais i ni yn fuan iawn cyn dechrau eich Rhaglen) yn ystod y Cyfnod Ailfeddwl, byddwch yn talu i ni (a bydd gan y Brifysgol hawl i'w ddidynnu) swm teg sy'n gymesur â'r hyn sydd wedi ei gyflawni hyd at yr adeg y gwnaethoch ein hysbysu eich bod yn canslo'r contract hwn, o'i gymharu â chost lawn y rhaglen. Bydd y fath swm yn adlewyrchu'r budd y byddwch chi wedi ei gael hyd at y dyddiad y gwnaethoch ein hysbysu o'ch dymuniad i ganslo.

8.5. Os hoffech ganslo'r contract ar ôl diwedd y Cyfnod Ailfeddwl, dim ond fel y nodir yn Adran 26 y byddwch yn gallu gwneud hynny.

## 9. Cofrestru ac Ailgofrestru

9.1. Mae'n ofynnol i chi gofrestru'n llawn (nid yw cofrestriadau Dros Dro wedi eu cynnwys ar gyfer statws cofrestredig llawn) ac ailgofrestru ar ddechrau pob sesiwn academaidd erbyn y dyddiadau cau penodedig. Os na fyddwch yn gwneud hynny, efallai na chaniateir i chi ddechrau/symud ymlaen ar eich Rhaglen neu efallai y cewch eich tynnu'n ôl o'r Rhaglen gan y Brifysgol. Os byddwch yn cofrestru neu'n ailgofrestru'n hwyr, bydd disgwyl i chi gysylltu â'ch Cyfadran i gael unrhyw gynnwys rhaglen a gollwyd, ac ni fydd y Brifysgol yn derbyn unrhyw atebolrwydd am unrhyw gynnwys y Rhaglen neu asesiadau rydych chi'n eu colli.

9.2. Os nad ydych yn cofrestru'n llawn erbyn dyddiadau cau cofrestru'r Brifysgol, efallai y cewch eich tynnu'n ôl o'r Rhaglen am beidio â chofrestru. Er na fydd disgwyl i chi dalu Ffioedd sy'n ymwneud â'r Rhaglen ar ôl y dyddiad y cawsoch eich tynnu'n ôl, bydd disgwyl i chi dalu Ffioedd hyd at ac yn cynnwys eich dyddiad tynnu'n ôl ac ni fydd gennych hawl i unrhyw ad-daliad o Ffioedd a dalwyd am wasanaethau a ddarparwyd hyd at eich dyddiad tynnu'n ôl.

9.3. Os cewch eich tynnu'n ôl, byddwch yn cael eich hysbysu drwy e-bost bod eich cofnod wedi ei gau ac nad ydych bellach yn gymwys i barhau â'ch astudiaethau, cael mynediad at gyfleusterau'r Brifysgol neu aros mewn llety sy'n eiddo i'r Brifysgol yn unol â Thelerau ac Amodau eich cytundeb llety.

9.4. Os oes gennych fisa myfyriwr Haen 4/Llwybr Myfyrwyr, bydd y Brifysgol yn hysbysu'r Swyddfa

Gartref nad ydych wedi eich cofrestru ac os bydd hyn yn digwydd bydd eich fisa yn cael ei ganslo, a fydd wedyn yn effeithio ar eich hawl i ddod i mewn i'r DU a/neu aros yn y DU.

9.5. Os ydych chi'n cael benthyciad myfyrwyr gan lywodraeth y DU, bydd y Brifysgol yn hysbysu'r Cwmni Benthyciadau Myfyrwyr eich bod wedi eich tynnu'n ôl.

9.6. Os byddwch yn derbyn hysbysiad eich bod yn cael eich tynnu'n ôl, efallai y cewch adennill eich lle o fewn cyfnod rhesymol trwy gyflwyno Ffurflen Caniatâd i Gofrestru. Mae rhagor o wybodaeth yma:

Rheoliadau Cyffredinol Israddedig - Prifysgol Abertawe

Rheoliadau Cyffredinol Ôl-raddedig - Prifysgol Abertawe

## 10. Rhwymedigaethau'r Brifysgol i chi

10.1. Yn ystod cyfnod y contract (fel y nodir yn y Cynnig), mae'r Brifysgol yn cytuno i ddarparu gwasanaethau academaidd a gwasanaethau cysylltiedig i chi (gan gynnwys darparu'r Rhaglen) gyda phob gofal a medr rhesymol ac yn unol â'r Telerau ac Amodau hyn.

10.2. Bydd y Brifysgol yn cyflawni ei rhwymedigaethau contractiol i fyfyrwyr ac yn cydymffurfio â'i hymrwymiadau o dan gyfraith defnyddwyr fel yr amlinellir gan yr Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd. Wrth wneud hynny, bydd y Brifysgol yn gweithio i ddiogelu buddiannau'r myfyriwr wrth ymateb i amgylchiadau fel newidiadau sylweddol i'r ffordd y mae cwrs yn cael ei gyflwyno neu gau cwrs. Mae gan y Brifysgol weithdrefnau ar waith i ymateb i'r amgylchiadau hyn a fydd yn lliniaru'r effaith bosibl ar fyfyrwyr, ac sy'n cydnabod anghenion unigryw ei chorff myfyrwyr amrywiol.

## 11. Eich rhwymedigaethau

11.1. Yn ystod cyfnod y contract a/neu'ch Rhaglen, rydych yn cytuno i wneud y canlynol:
- 11.1.1. Cydymffurfio â'r holl rwymedigaethau o dan y Telerau ac Amodau hyn (gan gynnwys y dogfennau y cyfeirir atynt yn y Telerau ac Amodau hyn)
- 11.1.2. Cydymffurfio â Rheoliadau a Rheoliadau Academaidd y Brifysgol
- 11.1.3. Talu'r Ffioedd yn unol ag Adran 5
- 11.1.4. Gweithio'n ddiwyd ac yn effeithlon
- 11.1.5. Cyflwyno'r holl asesiadau a mynychu cyflwyniadau ac arholiadau ffurfiol yn ôl yr angen i gwblhau'ch rhaglen
- 11.1.6. Mynychu'r holl ddarlithoedd, seminarau a gweithgareddau addysgu eraill sy'n ofynnol o fewn y Rhaglen, a pharatoi'n briodol ar eu cyfer, a hysbysu'r darlithydd/tiwtor perthnasol os na allwch fod yn bresennol neu os gallwch fod yn bresennol am ran o'r gweithgaredd addysgu yn unig
- 11.1.7. Peidio ag amharu ar y canlynol:
  - 11.1.7.1. Gweithgareddau academaidd unrhyw aelod o'r gymuned academaidd
  - 11.1.7.2. Gweinyddiaeth a gweithrediad cyffredinol y Brifysgol
- 11.1.8. Peidio â dod â'r Brifysgol i anfri na pheri unrhyw atebolrwydd ar ran y Brifysgol
- 11.1.9. Peidio â chymryd rhan mewn unrhyw weithgarwch troseddol
- 11.1.10. Peidio â chymryd rhan mewn gweithgareddau sy'n groes i Bolisi Cydraddoldeb y Brifysgol
- 11.1.11. Peidio â niweidio, difrodi neu gam-feddiannu unrhyw beth sy'n eiddo i'r Brifysgol, unrhyw sefydliad neu gorff arall o fyfyrwyr yn y Brifysgol neu unrhyw aelod arall o'r gymuned academaidd neu weithiwr y Brifysgol
- 11.1.12. Datgan unrhyw gyfyngiadau cyfreithiol a allai effeithio ar eich astudiaethau eich hun

a/neu beri risg i ddiogelu staff a myfyrwyr y Brifysgol.

## 12. Cyhuddiadau, rhybuddion ac euogfarnau troseddol ac ymddygiad a allai achosi niwed difrifol i enw da'r Brifysgol

12.1. Os yw eich cynnig o le yn amodol ar gael gwiriad boddhaol gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS), bydd angen i chi gael a darparu'r wybodaeth hon erbyn y dyddiad penodedig a bydd y Brifysgol yn penderfynu a yw unrhyw euogfarnau neu wybodaeth a ddatgelir yn anghydnaws â lle ar y rhaglen. Os ydynt, neu os nad ydych yn darparu gwybodaeth DBS ofynnol erbyn y dyddiad penodedig, byddwch yn cael eich hysbysu, a bydd eich cynnig o le yn cael ei dynnu'n ôl a'ch contract yn dod i ben.

12.2. Os yw eich rhaglen yn gofyn am wiriad boddhaol gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS), bydd angen i chi gael a darparu'r wybodaeth hon cyn cofrestru ac ailgofrestru bob sesiwn academaidd. Bydd y Brifysgol yn penderfynu a yw unrhyw euogfarnau neu wybodaeth a ddatgelir yn anghydnaws â'ch rhaglen. Os ydynt, neu os nad ydych yn darparu gwybodaeth DBS ofynnol erbyn y dyddiad penodedig, caiff y bydd y Brifysgol ofyn i chi atal eich astudiaethau dros dro, neu efallai y cewch eich tynnu'n ôl o'r Brifysgol.

12.3. Gofynnir i ymgeiswyr ar gyfer pob Rhaglen arall ddatgelu a oes ganddynt unrhyw euogfarnau "perthnasol" heb eu disbyddu ar ôl iddynt gael cynnig o le ac fel rhan o'r broses ymgeisio am lety. Os yw'r ymgeisydd eisoes wedi ei gofrestru fel myfyriwr, efallai y bydd yn cael ei wahardd dros dro hyd nes y ceir canlyniad yr asesiad risg hwn. Mae euogfarnau "perthnasol" yn cynnwys y rhai sy'n cynnwys trais neu ymddygiad bygythiol, troseddau rhywiol, a chyflenwi cyffuriau; yn ogystal â throseddau sy'n ymwneud ag arfau tanio, llosgi bwriadol, a therfysgaeth. Gofynnir i ymgeiswyr ddarparu mwy o wybodaeth a fydd yn cael ei defnyddio fel rhan o asesiad risg mewn perthynas â chael eu derbyn i'r Brifysgol. Os mai canlyniad yr asesiad yw y bernir bod yr ymgeisydd yn peri risg sylweddol i ddiogelwch myfyrwyr neu staff y Brifysgol neu ymwelwyr â'r Brifysgol a/neu os oes ganddo'r potensial i achosi niwed difrifol i enw da'r Brifysgol, caniateir tynnu cynnig o le yn ôl. Am fwy o wybodaeth gweler: https://www.swansea.ac.uk/media/Polisi-ar-recriwtio-myfyrwyr-%C3%83-chollfarnau-troseddol.docx

12.4. Mae'n ofynnol hefyd i bob myfyriwr roi gwybod i'r Brifysgol yn brydlon am fanylion unrhyw ymchwiliadau'r heddlu, achos llys troseddol, arestiadau, cyhuddiadau, rhybuddion a/neu euogfarnau troseddol y maent yn ddarostyngedig iddynt (p'un a ydynt yn gysylltiedig â'r Brifysgol ai peidio), ac am unrhyw amodau mechnïaeth a osodir arnynt rhwng y dyddiad y byddant yn derbyn cynnig o le ar un o raglenni'r Brifysgol hyd nes iddynt raddio / tynnu'n ôl o'r Brifysgol. Os ydych chi'n cael eich arestio a/neu'n destun unrhyw gyhuddiadau, rhybuddion a/neu euogfarnau troseddol, neu os ydych yn ddarostyngedig i unrhyw amodau mechnïaeth, bydd angen i chi ddarparu gwybodaeth o'r fath yn brydlon i'r Cyfarwyddwr Gwasanaethau Addysg. Gellir ystyried bod methiant i wneud hynny yn torri Gweithdrefnau Disgyblu'r Brifysgol a gellir gosod cosbau yn eich erbyn yn unol â'r Gweithdrefnau hyn (ar gael yn: https://myuni.swansea.ac.uk/cy/bywyd-academaidd/rheoliadau-academaidd/ymddygiad-a-chwynion/gweithdrefnau-disgyblu/

12.5. Gofynnir i ymgeiswyr ar gyfer pob rhaglen gadarnhau ymhellach nad ydynt yn ymwybodol o unrhyw ymddygiad blaenorol ar eu rhan a allai fod â'r potensial i achosi niwed i enw da'r Brifysgol. Gallai ymddygiad o'r fath gynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i, ymddygiad y gellid ei ystyried yn drosedd os caiff ei gyfeirio at yr heddlu neu sylwadau wedi eu postio'n electronig (er enghraifft, ond heb fod yn gyfyngedig i, ar lwyfannau cyfryngau cymdeithasol) y gellir eu hystyried yn ddifrifol sarhaus ac sydd â'r potensial i niweidio enw da'r Brifysgol. Efallai y gofynnir i ymgeiswyr sy'n datgelu ymddygiad o'r fath ddarparu mwy o wybodaeth a fydd yn cael ei defnyddio fel rhan o asesiad risg mewn perthynas â chael eu derbyn i'r Brifysgol. Os mai canlyniad yr asesiad yw y bernir bod yr ymgeisydd yn peri risg sylweddol i ddiogelwch myfyrwyr

neu staff y Brifysgol neu ymwelwyr â'r Brifysgol a/neu os oes ganddo'r potensial i achosi niwed difrifol i enw da'r Brifysgol, gellir tynnu cynnig o le yn ôl. Am fwy o wybodaeth gweler: https://www.swansea.ac.uk/media/Polisi-ar-recriwtio-myfyrwyr-%C3%83-chollfarnau-troseddol.docx

## 13. Rhaglenni proffesiynol

13.1. Os ydych chi'n gwneud cais am raglen broffesiynol, yn dibynnu ar y rhaglen, gofynnir i chi ddarparu gwybodaeth am eich iechyd erbyn y dyddiadau penodol, cael gwiriad iechyd a/neu ddarparu tystiolaeth o imiwneiddiadau. Mae rhaglenni o'r fath yn cynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i, Meddygaeth i Raddedigion, Bydwreigiaeth, Nyrsio a Gwyddor Barafeddygol. Mae eich cynnig o le yn amodol ar fodloni'r gofynion hynny. Efallai y bydd gofyn i chi hefyd lofnodi Cod Ymddygiad Proffesiynol cyn i chi gofrestru i dynnu at eich sylw ofynion cysylltiedig ag addasrwydd i ymarfer sy'n benodol i'ch rhaglen. Bydd y Brifysgol yn penderfynu a yw unrhyw wybodaeth a ddatgelir yn anghydnaws â lle ar y rhaglen. Os ydynt, neu os nad ydych yn darparu'r fath wybodaeth / yn cael gwiriad iechyd o'r fath erbyn y dyddiad penodedig, byddwch yn cael eich hysbysu, a bydd eich cynnig o le yn cael ei dynnu'n ôl a'ch contract yn cael ei derfynu. Gweler gwybodaeth fanwl y rhaglenni am wybodaeth am ba raglenni y mae hyn yn berthnasol iddynt.

13.2. Os ydych wedi cofrestru ar raglen broffesiynol sydd â gofynion "Addasrwydd i Ymarfer", efallai y gofynnir i chi ddarparu gwybodaeth am eich iechyd, cael gwiriad iechyd, a/neu ddarparu tystiolaeth o imiwneiddiadau cyn cofrestru neu ailgofrestru ar gyfer pob sesiwn academaidd. Bydd y Brifysgol yn penderfynu a yw unrhyw wybodaeth a ddatgelir yn anghydnaws â lle ar y rhaglen. Os ydynt, neu os nad ydych yn darparu'r fath wybodaeth / yn cael gwiriad iechyd o'r fath erbyn y dyddiad penodedig, efallai y bydd y Brifysgol yn gofyn i chi atal eich astudiaethau dros dro neu efallai y cewch eich tynnu'n ôl o'r Brifysgol yn unol â Rheoliadau Addasrwydd i Ymarfer y Brifysgol (ar gael yn: https://myuni.swansea.ac.uk/cy/bywyd-academaidd/rheoliadau-academaidd/ymddygiad-a-chwynion/addasrwydd-i-ymarfer/ )

## 14. Anableddau

14.1. Os oes gennych anabledd neu gyflwr iechyd, bydd y Brifysgol yn ceisio eich cefnogi, pryd bynnag y mae'n rhesymol gwneud hynny. Os nad ydych wedi datgelu anabledd eto, rydym yn eich annog i wneud hynny cyn gynted â phosibl fel y gallwn asesu a cheisio cefnogi eich anghenion. Gan y gall anghenion myfyrwyr unigol (hyd yn oed y rhai sydd â'r un cyflwr) amrywio, rydym yn eich annog i gysylltu â'r Swyddfa Anabledd neu'r Gwasanaeth Lles cyn i chi dderbyn unrhyw gynnig o le i weld pa fath o gymorth a allai fod ar gael i chi a pha dystiolaeth y gallai fod ei hangen arnom i fodloni eich gofynion cymorth. Mae rhagor o wybodaeth a manylion cyswllt ar gael ar dudalennau gwe'r gwasanaeth, https://www.swansea.ac.uk/cy/gwasanaethau-cymorth-i-fyfyrwyr/

14.2. Os byddwch yn dewis peidio â dweud wrthym am eich anabledd, yn rhoi'r wybodaeth hon ond ychydig cyn dyddiad dechrau eich rhaglen neu arholiadau/asesiad neu os nad ydych yn darparu gwybodaeth lawn am eich anabledd cyn neu yn ystod eich rhaglen astudio, byddwn yn gwneud ein gorau glas i'ch helpu, ond efallai na fyddwn yn gallu darparu'r ystod lawn o gymorth a allai fod ar gael i chi fel arall, neu efallai y bydd oedi cyn darparu'r cymorth hwnnw.

## 15. Derbyn Pobl Ifanc dan 18 oed

15.1. Os byddwch rhwng 16 a 18 oed adeg cofrestru, byddwn yn gofyn i riant neu warcheidwad lofnodi datganiad adeg gwneud cynnig – bydd eich cynnig yn cael ei wneud yn amodol ar gael y datganiad hwn.

15.2. Mae polisi llawn y Brifysgol ar Ddiogelu Grwpiau Agored i Niwed, sy'n cynnwys y polisi ar gyfer derbyn pobl ifanc dan 18 oed, i'w weld ar-lein yn: https://www.swansea.ac.uk/media/prifysgol-abertawe-polisi-diogelu.pdf

## 16. Sefydliadau Cydweithredol

16.1. Mae rhai rhaglenni'n cynnwys elfen o astudio a/neu weithio mewn Sefydliad Cydweithredol y tu allan i'r Brifysgol. Mae enghreifftiau'n cynnwys rhaglenni sy'n cynnwys: blwyddyn yn astudio mewn sefydliad dramor; lleoliadau mewn diwydiannau/cwmnïau; a lleoliadau mewn sefydliadau proffesiynol megis, er enghraifft, y GIG, Awdurdod Lleol, Gwasanaeth Ambiwlans Cymru etc.

16.2. Os ydych chi'n astudio a/neu'n gweithio mewn Sefydliad Cydweithredol fel rhan o'ch rhaglen, efallai y gofynnir i chi ddarparu gwybodaeth neu fodloni gofynion penodol erbyn dyddiadau penodedig cyn dechrau astudio/gweithio a/neu yn ystod y cyfnod o astudio/gweithio megis, ond heb fod yn gyfyngedig i, wybodaeth/gofynion sy'n ymwneud ag yswiriant, imiwneiddiadau a fisâu. Bydd y Brifysgol yn penderfynu a yw unrhyw wybodaeth a ddatgelir yn anghydnaws â chi'n ymgymryd â'r gwaith/astudiaeth. Os ydyw, neu os nad ydych yn darparu'r wybodaeth y gofynnwyd amdani neu'n cydymffurfio â'r gofynion hynny erbyn y dyddiad penodedig, caiff y Brifysgol atal eich astudiaethau, eich trosglwyddo i raglen amgen, gofyn i chi dynnu'n ôl o'r Brifysgol a/neu derfynu eich Contract gyda'r Brifysgol.

16.3. Os ydych chi'n astudio a/neu'n gweithio mewn Sefydliad Cydweithredol fel rhan o'ch rhaglen, byddwch yn ddarostyngedig i bolisïau, rheoliadau a thelerau contract ychwanegol penodol y Sefydliad Cydweithredol hwnnw, gan gynnwys rheolau iechyd a diogelwch a rheoliadau disgyblu. Gall torri'r polisïau, rheoliadau neu delerau contract ychwanegol hyn arwain at y Sefydliad Cydweithredol yn eich gwahardd o'i fan astudio/gwaith. Caiff y Sefydliad Cydweithredol hefyd eich gwahardd o'i fan astudio/gwaith os yw'n ystyried bod hyn yn angenrheidiol o ystyried eich ymddygiad neu eich addasrwydd proffesiynol neu pan fo diogelwch eraill yn cael ei beryglu. Pan fyddwch wedi eich gwahardd o fan gwaith/astudio Sefydliad Cydweithredol a bod cwblhau gwaith/astudiaeth o'r fath yn un o ofynion eich rhaglen, mae'r Brifysgol yn cadw'r hawl i atal eich astudiaethau dros dro, eich trosglwyddo i raglen amgen, gofyn i chi dynnu'n ôl o'r Brifysgol a/neu derfynu eich Contract gyda'r Brifysgol. Caiff unrhyw achos lle'r ydych chi'n torri polisïau, rheoliadau neu delerau contract ychwanegol y Sefydliad Cydweithredol hefyd gael ei drin fel torri Rheoliadau'r Brifysgol ac o ganlyniad, caiff y Brifysgol yn ei gwneud yn ofynnol i chi dynnu'n ôl o'r Brifysgol, atal gwasanaethau a/neu derfynu eich Contract gyda'r Brifysgol.

## 17. Diogelu data

17.1. Bydd y Brifysgol yn casglu ystod o wybodaeth amdanoch chi fel rhan o'r gweithdrefnau ymgeisio a chofrestru ac mewn perthynas â'ch cynnydd academaidd. Gall hyn gynnwys data personol o natur sensitif. Bydd y wybodaeth a gesglir yn cael ei defnyddio'n bennaf at ddibenion prosesu eich cais a chreu a chynnal eich cofnod myfyriwr.

17.2. Mae'r holl wybodaeth bersonol yn cael ei chadw a'i phrosesu yn unol â gofynion GDPR y DU fel y'i hategir gan Ddeddf Diogelu Data 2018, y Rheoliadau Preifatrwydd a Chyfathrebu Electronig (PECR), ac unrhyw ddeddfwriaeth gysylltiedig arall.

17.3. Mae gwybodaeth fel arfer yn gyfrinachol rhwng yr ymgeisydd, staff priodol yn y Brifysgol ac yn achos ymgeiswyr rhyngwladol, adran Fisâu a Mewnfudo'r DU y Swyddfa Gartref.

17.4. Mewn rhai achosion, gall data ceisiadau hefyd gael ei rannu'n allanol lle mae rhaglenni wedi eu datblygu mewn cydweithrediad â sefydliadau trydydd parti. Er mwyn canfod ac atal twyll, mae

gan y Brifysgol hefyd yr hawl i rannu gwybodaeth gyda sefydliadau allanol fel yr Heddlu, awdurdodau lleol, cyrff arholi neu ddyfarnu, a'r Adran Gwaith a Phensiynau a'i hasiantaethau.

17.5. Mae'n ofynnol i'r Brifysgol gyflwyno gwybodaeth a datganiadau statudol i gyrff fel yr Asiantaeth Ystadegau Addysg Uwch (HESA).

17.6. Gellir dod o hyd i bolisi diogelu data'r Brifysgol ar gyfer myfyrwyr yn: https://www.swansea.ac.uk/cy/y-brifysgol/amdanom-ni/cydymffurfiaeth/diogelu-data/hysbysiadau-preifatrwydd/hysbysiad-preifatrwydd-myfyrwyr/

17.7. Gellir dod o hyd i bolisi diogelu data'r Brifysgol ar gyfer ymgeiswyr yn: https://www.swansea.ac.uk/cy/astudio/derbyn-myfyrwyr/datganiad-preifatrwydd-data-ymgeiswyr/

17.8 Os oes gennych unrhyw ymholiadau neu os oes angen unrhyw fanylion pellach am ddiogelu data, cysylltwch â Swyddog Diogelu Data'r Brifysgol drwy e-bost – dataprotection@swansea.ac.uk

## 18. Cywirdeb Gwybodaeth

18.1. Trwy dderbyn Cynnig, rydych chi'n cadarnhau bod y wybodaeth a ddarperir ar eich ffurflen gais ac mewn cysylltiad â'ch cais yn wir, yn gyflawn ac yn gywir, ac nad oes unrhyw wybodaeth y gofynnwyd amdani, neu wybodaeth berthnasol arall wedi ei hepgor. Mae'r Brifysgol yn cadw'r hawl i bennu dilysrwydd y wybodaeth a ddarperir yn eich cais a/neu mewn cysylltiad â'ch cais ac mae'n cadw'r hawl i ganslo eich cais a therfynu eich contract a/neu eich tynnu'n ôl o'r Brifysgol os yw'n penderfynu bod gwybodaeth ffug, anghywir, anghyflawn a/neu gamarweiniol wedi ei darparu i gefnogi eich cais gennych chi, gan eich canolwr neu gan unrhyw berson arall sy'n gweithredu ar eich rhan.

18.2. Bydd y Brifysgol yn ceisio cadarnhad o'ch cymwysterau yn uniongyrchol gan y corff dyfarnu neu'r sefydliad. Os nad oes cadarnhad wedi ei gael cyn cofrestru gyda'r Brifysgol, bydd y Swyddfa Derbyniadau / Gwasanaethau Addysg yn gofyn i chi ddarparu eich tystysgrif radd wreiddiol/cadarnhad swyddogol o ddyfarnu eich gradd cyn i chi gofrestru gyda'r Brifysgol. Felly, dylech ddod â'ch tystysgrifau cymhwyster gwreiddiol a/neu drawsgrifiadau wrth gofrestru yn y Brifysgol. Mae'r Brifysgol yn cadw'r hawl i ganslo eich cais a therfynu eich contract a/neu eich tynnu'n ôl o'r Brifysgol os nad ydych yn darparu'r ddogfennaeth hon (lle gofynnir amdani) erbyn y dyddiad penodedig.

## 19. Rhaglenni Ymchwil Ôl-raddedig

19.1. Mae rhaglen pob gradd ymchwil ôl-raddedig yn cynnwys cyfnod arferol o astudio dan oruchwyliaeth – yr isafswm cyfnod ymgeisyddiaeth ('dyddiad gorffen disgwyliedig' yn eich Cynnig) – ac ar ddiwedd y cyfnod hwnnw mae disgwyl i fyfyriwr gyflwyno ei ymchwil. Mae yna hefyd ddyddiad cyflwyno hwyraf ac ar ôl hynny ystyrir bod myfyriwr wedi rhedeg allan o amser ac ni chaniateir iddo gyflwyno traethawd ymchwil ("dyddiad gorffen ymgeisyddiaeth" ar eich llythyr cynnig). Ar ddiwedd yr isafswm cyfnod ymgeisyddiaeth disgwylir i'r myfyriwr fod wedi cwblhau ei ymchwil ac i fod yn paratoi i gyflwyno'r traethawd ymchwil. Rhaid i fyfyriwr gyflwyno ei draethawd ymchwil ar neu cyn dyddiad cyflwyno hwyraff ei ymgeisyddiaeth neu ystyrir ei fod wedi rhedeg allan o amser, ac ni chaniateir iddo gyflwyno ei draethawd ymchwil a bydd yn ofynnol iddo dynnu'n ôl.

19.2. Yn ystod eich ymgeisyddiaeth rhaglen ymchwil, bydd disgwyl i chi ddangos cynnydd academaidd boddhaol trwy asesiadau parhaus. Efallai y bydd gofyn i chi drosglwyddo i raglen ddyfarnu lefel is neu dynnu'n ôl o astudiaethau os ystyrir nad ydych wedi gwneud digon o gynnydd academaidd yn unol â meini prawf cynnydd y Coleg/Ysgol/Prifysgol, targedau ymchwil, neu nad ydych wedi cydymffurfio â rheoliadau'r Brifysgol ar unrhyw adeg. Gweler Canllawiau ar Dderbyn Myfyrwyr Ymchwil – Prifysgol Abertawe am ragor o wybodaeth am feini prawf gwneud cynnydd.

I gael rhagor o fanylion am gynnydd academaidd a rhaglenni/dyfarniadau ymadael lefel is, gweler y Canllawiau i Fonitro Cynnydd Myfyrwyr Ymchwil Canllawiau i Fonitro Cynnydd - Prifysgol Abertawe

19.3. Ni all y Brifysgol warantu argaeledd y goruchwylwyr disgwyliedig a enwir yn eich cynnig gan fod symudiadau'r goruchwylwyr mewn rhai achosion y tu hwnt i reolaeth y Brifysgol. Os bydd unrhyw un o'r goruchwylwyr disgwyliedig yn rhoi'r gorau i gyflogaeth ym Mhrifysgol Abertawe neu os nad yw'n gallu eich goruchwylio am unrhyw reswm arall, bydd y Brifysgol yn cymryd camau rhesymol i nodi a dyrannu goruchwylwyr amgen i chi ond ni all warantu y bydd hyn yn bosibl. Os nad yw hyn yn bosibl, efallai y bydd angen cynnig maes ymchwil amgen.

19.4. Yn yr achos lle mae cyllid yn gysylltiedig â goruchwyliwr a enwir, bydd y cynnig a'r cyllid yn parhau i fod yn ddilys dim ond os yw'r goruchwyliwr a enwir yn parhau i fod yn ei swydd ac yn gallu eich goruchwylio. Ni fydd unrhyw warant y bydd y cyllid yn parhau os yw'r goruchwyliwr a enwir yn gadael y Brifysgol neu nad yw'n gallu eich goruchwylio am unrhyw reswm arall. Fodd bynnag, bydd y Brifysgol yn gwneud ei gorau glas i'ch cynorthwyo, os byddwch chi'n penderfynu p'un ai i barhau yn y Brifysgol neu i drosglwyddo i Brifysgol arall gyda'r goruchwyliwr a enwir.

## 20. Gofynion Iaith Saesneg

20.1. Rhaid i bob myfyriwr nad Saesneg yw ei iaith frodorol ddangos ei fod wedi cyflawni lefel benodol o Saesneg cyn dechrau ar ei raglen. Os yw amodau eich cynnig yn cynnwys gofyniad iaith Saesneg, gellir dangos hyn mewn dwy ffordd:

20.1.1. Trwy brawf Saesneg cymeradwy neu gymhwyster amgen a restrir yn: https://www.swansea.ac.uk/cy/astudio/derbyn-myfyrwyr/gofynion-iaith-saesneg/

20.1.2. Cwblhau Rhaglen Gyn-Sesiynol Saesneg yn llwyddiannus yng Ngwasanaethau Hyfforddi Iaith Saesneg (ELTS) Abertawe ar y lefel ofynnol cyn dechrau ar eich rhaglen academaidd. Gellir cael rhagor o wybodaeth yn: www.swansea.ac.uk/ELTS

20.2. Er y gall myfyrwyr fodloni gofyniad isafswm Saesneg y Brifysgol, mae'r Brifysgol yn cadw'r hawl i fynnu bod myfyrwyr nad ydynt yn meddu ar Brawf Iaith Saesneg Diogel wedi'i gymeradwyo gan UKVI gael eu profi pan fyddant yn cyrraedd i asesu a oes angen cymorth iaith ychwanegol ac i helpu i lywio polisi Saesneg y Brifysgol.

## 21. Fisâu a chaniatâd mewnfudo

21.1. Os ydych chi'n fyfyriwr rhyngwladol, efallai y bydd angen fisa arnoch i'ch galluogi i astudio yn y DU. Mae'r Brifysgol yn cadw'r hawl i dynnu'n ôl y cynnig o le i chi/terfynu eich contract gyda'r Brifysgol os canfyddir wedyn nad ydych yn gymwys i gael fisa neu os yw'r gofynion fisa yn newid ar ôl i chi gael cynnig lle, er enghraifft os yw'n amlwg na allwch fodloni gofynion UKVI fel y rhai sy'n ymwneud â gallu Iaith Saesneg, cynnydd academaidd a hygrededd. Gweler y polisi derbyn cyffredinol am ragor o wybodaeth (ar gael yn https://www.swansea.ac.uk/cy/astudio/derbyn-myfyrwyr/polisi-derbyn/)

21.2. I gael gwybodaeth am faterion mewnfudo, anfonwch e-bost at Dîm Cyngor Fisa'r Brifysgol

(International@Campuslife gynt) yn nhîm VISA.Advice@swansea.ac.uk

## 22. Blaendaliadau ar gyfer Ymgeiswyr Rhyngwladol

22.1. Os ydych chi'n ymgeisydd rhyngwladol a'ch bod angen fisa Llwybr Myfyrwyr (fisa Haen 4 gynt) i astudio yn y DU, mae'n ofynnol i chi dalu o leiaf £4000 o flaendal tuag at eich ffioedd dysgu i brofi eich bwriad i astudio ym Mhrifysgol Abertawe cyn i ni gyhoeddi eich datganiad Cadarnhad Derbyn i Astudio (CAS).

22.2. Mae'n ofynnol i chi dalu o leiaf £4000 o flaendal tuag at eich ffioedd dysgu. Ar gyfer ymgeiswyr o wledydd dynodedig, bydd gofyn i chi dalu'r ffioedd dysgu'r flwyddyn gyntaf yn llawn (llai unrhyw fwrsariaeth neu ysgoloriaeth a gadarnhawyd yn y cam CAS); neu bydd gofyn i chi dalu 50 y cant o'ch ffioedd dysgu ar gyfer y flwyddyn gyntaf (llai unrhyw fwrsariaeth neu ysgoloriaeth a gadarnhawyd yn y cam CAS), neu bydd gofyn i chi dalu blaendal o £8000. Am ragor o wybodaeth gweler https://www.swansea.ac.uk/admissions/deposit-deadline-faqs/#what-is-a-deposit-payment=is-expanded

22.3. Y tu allan i'r Cyfnod Ailfeddwl o 14 diwrnod, dim ond os nad ydych yn bodloni gofynion mynediad y Brifysgol, os gwrthodir fisa i astudio'n llawn amser yn y DU, os ydych wedi teithio i'r DU, neu os ydych wedi teithio i'r DU ond heb gofrestru ar eich rhaglen astudio ac wedi dychwelyd i'ch gwlad enedigol ers hynny. Gellir gohirio'r blaendal i flwyddyn astudio yn y dyfodol.

22.4. Gellir cael rhagor o wybodaeth yn: https://www.swansea.ac.uk/cy/israddedig/ffioedd-a-chyllid/ffioedd-dysgu/polisiad-daliadau/

## 23. Eiddo Deallusol

23.1 Os ydych chi, gyda mewnbwn perthnasol gan staff academaidd y Brifysgol neu fel rhan o brosiect ar y cyd, yn datblygu dyfeisiad, dyfais, darganfyddiad, deunydd, cynnyrch, proses, meddalwedd gyfrifiadurol neu unrhyw ganlyniad neu arloesedd arall a allai fod yn werthfawr, bydd Polisi'r Brifysgol ar Eiddo Deallusol a grëwyd gan ein Myfyrwyr yn gymwys. Am fwy o wybodaeth gweler: http://www.swansea.ac.uk/media/IP-policy.pdf

## 24. Ymddygiad a chyfranogiad

24.1. Rhaid i chi fod yn ymwybodol o Reoliadau'r Brifysgol sy'n ymwneud ag ymarweddiad ac ymddygiad, uniondeb academaidd, a chyfranogiad. Gall y Brifysgol osod cosbau os nad ydych yn dilyn y gofynion hyn, ac mewn achosion difrifol gall y Brifysgol eich atal dros dro neu eich tynnu'n ôl o'r Brifysgol. Gall y Brifysgol hefyd eich atal dros dro neu eich tynnu'n ôl o'r Brifysgol os yw'n credu'n rhesymol y byddai caniatáu i chi barhau â'ch rhaglen yn cyflwyno risg sylweddol o niwed i chi neu i eraill. Gellir dod o hyd i ragor o wybodaeth yn y Rheoliadau a'r Gweithdrefnau canlynol:

- Gweithdrefnau Disgyblu – ar gael yn: https://myuni.swansea.ac.uk/cy/bywyd-academaidd/rheoliadau-academaidd/ymddygiad-a-chwynion/gweithdrefnau-disgyblu/
- Gweithdrefn Camymddwyn Academaidd – ar gael yn: https://hwb.swansea.ac.uk/cy/bywyd-academaidd/rheoliadau-academaidd/asesu-a-chynnydd/gweithdrefn-camymddwyn-academaidd/
- Rheoliadau Addasrwydd i Ymarfer – ar gael yn: https://hwb.swansea.ac.uk/cy/bywyd-academaidd/rheoliadau-academaidd/ymddygiad-a-chwynion/addasrwydd-i-ymarfer/

- Polisi Monitro Cyfranogiad Myfyrwyr a Addysgir - ar gael yn https://hwb.swansea.ac.uk/cy/bywyd-academaidd/rheoliadau-academaidd/polisïau/polisi-monitro-cyfranogiad-myfyrwyr-a-addysgir/
- Polisi Monitro Cyfranogiad myfyrwyr Llwybr Myfyrwyr (Haen 4 gynt) – ar gael yn https://myuni.swansea.ac.uk/academic-life/academic-regulations/aqs-policies/tier-4-attendance-monitoring-policy/
- Polisi Monitro Cyfranogiad Myfyrwyr Ymchwil - ar gael yn https://hwb.swansea.ac.uk/cy/bywyd-academaidd/rheoliadau-academaidd/polisïau/polisi-monitro-presenoldeb-ar-gyfer-ymchwil/
- Gweithdrefn Cymorth i Astudio - ar gael yn https://hwb.swansea.ac.uk/cy/bywyd-academaidd/rheoliadau-academaidd/asesu-a-chynnydd/gweithdrefn-addasrwydd-i-astudio/
- Rheoliadau asesu ar gyfer y rhaglen astudio – ar gael yn https://hwb.swansea.ac.uk/cy/bywyd-academaidd/rheoliadau-academaidd/

## 25. Pryd y gellir gofyn i chi adael y Brifysgol/hawl y Brifysgol i derfynu ein contract â chi

25.1. Gall y Brifysgol dynnu ei Chynnig yn ôl, eich tynnu'n ôl o'r Brifysgol a dod â'i chontract gyda chi i ben, heb atebolrwydd, ar unrhyw adeg (yn unol ag unrhyw bolisïau/gweithdrefnau perthnasol) trwy hysbysiad ysgrifenedig yn yr amgylchiadau canlynol:

25.1.1. Rydych yn torri'r Telerau ac Amodau hyn, Rheoliadau'r Brifysgol a/neu unrhyw amodau a nodir yn eich llythyr cynnig yn ddifrifol

25.1.2. Penderfynir bod gwybodaeth ffug, anghywir, anghyflawn a/neu gamarweiniol wedi'i darparu i gefnogi a/neu mewn cysylltiad â'ch cais gennych chi, eich canolwr neu gan unrhyw berson arall sy'n gweithredu ar eich rhan, gan gynnwys gwybodaeth sy'n ymwneud ag unrhyw euogfarnau troseddol sydd heb eu gwario

25.1.3. Rydych chi'n methu â bodloni neu, oherwydd bod eich amgylchiadau'n newid, nad ydych bellach yn bodloni unrhyw ofynion a/neu amodau penodol (fel y nodir yn eich llythyr cynnig) ar gyfer eich Rhaglen

25.1.4. Os ydych chi'n fyfyriwr sydd angen nawdd o dan Lwybr Myfyrwyr (Haen 4 gynt) o System Seiliedig ar Bwyntiau UKVI:

25.1.4.1. Oes angen fisa arnoch i astudio yn y DU, ac nad ydych yn caffael fisa erbyn dyddiad dechrau eich Rhaglen

25.1.4.2. Ni allwch ddarparu'r ddogfennaeth sy'n ofynnol fel rhan o'n Trwydded Noddwr Haen 4/Llwybr Myfyrwyr UKVI

25.1.4.3. Fe wrthodwyd fisa i chi astudio yn y DU ar achlysur blaenorol

25.1.4.4. Rydych chi'n darparu dogfennau nad yw'r Brifysgol yn gallu eu gwirio fel rhai dilys neu y mae'n credu nad ydynt yn ddilys

25.1.4.5. Rydych wedi methu â gweithredu o fewn cyfyngiadau eich fisa Haen 4/Llwybr Myfyriwr

25.1.4.6. Rydych wedi methu â chydymffurfio â'r Brifysgol neu gynorthwyo'r Brifysgol i gydymffurfio ag unrhyw Reolau Mewnfudo perthnasol, Canllawiau Haen 4/Llwybr Myfyrwyr UKVI neu ofynion eraill y Swyddfa Gartref sydd mewn grym o bryd i'w gilydd, gan gynnwys ond heb fod yn gyfyngedig i:

25.1.4.6.3 Yr iaith Saesneg

25.1.4.6.3 Monitro cyfranogiad a phwyntiau gwirio

26.1.4.6.3. Gwirio bod telerau eich fisa yn gywir

26.1.4.6.4. Rhoi gwybod am unrhyw ddiweddariadau neu newidiadau i'ch statws mewnfudo

26.1.4.6.5. Cadw eich cyfeiriad, ffôn a chyfeiriad e-bost personol yn y DU yn gyfredol ar eich cofnod myfyriwr

26.1.4.6.6. Cadw at y cyfyngiadau oriau gwaith fel y'u nodir ar eich fisa

25.1.4.7. Ar ôl ymchwiliad rhesymol, mae'r Brifysgol yn ystyried, neu yn cael ei hysbysu gan yr UKVI, eich bod yn fygythiad i reolaeth mewnfudo neu ddiogelwch gwladol

25.1.4.8. Mae eich cofrestriad parhaus gyda'r Brifysgol yn golygu ein bod, neu fod bygythiad i'r perwyl hwnnw, yn torri unrhyw un neu ragor o'n rhwymedigaethau cyfreithiol i gydymffurfio â gofynion mewnfudo yn y DU neu ofynion eraill, a allai hefyd arwain at y Brifysgol yn tynnu'n ôl nawdd Haen 4

25.1.5. Mae eich Rhaglen yn cynnwys astudio a/neu weithio mewn Sefydliad Cydweithredol ac rydych chi'n methu â bodloni unrhyw ofynion a/neu amodau perthnasol neu, o ganlyniad i'ch amgylchiadau yn newid, nad ydych yn eu bodloni bellach, neu os byddwch yn torri unrhyw bolisïau, rheoliadau neu delerau cytundebol ychwanegol y Sefydliad Cydweithredol hwnnw (gweler paragraff 16 uchod)

25.1.6. Nid yw eich cynnydd academaidd yn foddhaol, ac mae'n ofynnol i chi dynnu'n ôl o'r Rhaglen neu'r Brifysgol trwy benderfyniad Bwrdd Arholi, Cynnydd neu Ddyfarniadau'r Brifysgol

25.1.7. Rydych chi'n cael eich tynnu'n ôl o'r Brifysgol am dorri'r rheoliadau a'r gweithdrefnau Disgyblu, Camymddwyn Academaidd, Addasrwydd i Ymarfer, Cymorth i Astudio a/neu Fonitro Cyfranogiad yn unol â'r rheoliadau perthnasol (gweler dolenni i'r Rheoliadau a'r Gweithdrefnau hyn ym mharagraff 24.1. uchod);

25.1.8. Nid ydych yn talu eich ffioedd dysgu yn unol â Pholisi Dyled Myfyrwyr y Brifysgol (sydd ar gael yn [https://www.swansea.ac.uk/cy/y-brifysgol/amdanom-ni/cyllid/talu-ffioedd-dysgu-a-gwybodaeth-arall/polisi-dyled-myfyrwyr/](https://www.swansea.ac.uk/cy/y-brifysgol/amdanom-ni/cyllid/talu-ffioedd-dysgu-a-gwybodaeth-arall/polisi-dyled-myfyrwyr/))

25.1.9. Mae unrhyw sefydliad y mae'n ofynnol i chi ei fynychu neu fod yn aelod ohono fel rhan o'ch rhaglen yn eich diarddel neu'n gwrthod eich derbyn

25.1.10. Mae eich ymddygiad, ym marn resymol y Brifysgol, yn cynrychioli risg sylweddol i iechyd, diogelwch neu les eich hun neu eraill

25.1.11. Rydych chi'n methu â chofrestru neu ailgofrestru ar eich rhaglen erbyn dyddiadau penodedig

25.1.12. Rydych chi'n derbyn dedfryd o garchar am gyfnod o 12 mis neu fwy, neu'n hirach na gweddill cyfnod eich ymgeisyddiaeth. Byddech yn cael eich hysbysu'n ysgrifenedig am benderfyniad tynnu'n ôl o'r fath a byddech yn cael eich hysbysu o'ch hawl i ofyn am adolygiad o'r penderfyniad hwn.

25.2. Bydd penderfyniad sy'n ei gwneud yn ofynnol i chi adael y Brifysgol yn cael ei wneud yn unol ag unrhyw weithdrefn berthnasol ac yn amodol ar unrhyw hawl i apelio neu adolygiad. Os oes gan y Brifysgol reswm da dros eich tynnu'n ôl ac yn gwneud hynny yn unol â'r telerau ac amodau hyn ac unrhyw weithdrefn berthnasol, ni fydd y Brifysgol yn eich digolledu am unrhyw golled neu ddifrod y gallech ei ddioddef o ganlyniad.

25.3. Ar ôl tynnu'n ôl, mae'n ofynnol i chi ddychwelyd i swyddfa eich Cyfadran yr holl eiddo sy'n eiddo i'r Brifysgol. Rhaid i chi hefyd dalu unrhyw Ffioedd sy'n weddill (a allai gynnwys yr holl Ffioedd at y dyfodol). Ni fydd unrhyw gamau a gymerir gan y Brifysgol i'ch tynnu'n ôl yn cyfyngu ar ei gallu i gymryd unrhyw gamau pellach yn eich erbyn y mae ganddi'r hawl i'w cymryd.

25.4. Os yw'r Brifysgol yn dod â'ch contract i ben, yna bydd ganddi hefyd hawl i derfynu unrhyw gontract arall rydych chi wedi ymgymryd ag ef gyda'r Brifysgol, gan gynnwys unrhyw gytundeb llety.

## 26. Eich hawl i ddod â'r contract i ben

26.1. Gallwch derfynu'r contract drwy hysbysu'r Brifysgol yn ysgrifenedig o dan yr amgylchiadau

canlynol:

26.1.1. Pan nad ydych yn derbyn unrhyw newidiadau mawr rydym wedi'u gwneud i'r Rhaglen a/neu'r Telerau ac Amodau hyn (gan gynnwys y dogfennau y cyfeirir atynt yn y Telerau ac Amodau) yn unol ag Adrannau 3.7 i 3.10 ar yr amod eich bod wedi ein hysbysu nad ydych yn derbyn newidiadau mawr o'r fath o fewn 14 diwrnod o gael eich hysbysu o newidiadau mawr o'r fath. O dan amgylchiadau o'r fath, ni fyddwn yn codi tâl arnoch am unrhyw Ffioedd yn y dyfodol, ond byddwch yn gyfrifol am Ffioedd hyd at y dyddiad y bydd y contract yn dod i ben ond ni fydd gennych hawl i ad-daliad o Ffioedd a dalwyd hyd at y dyddiad y mae'r contract yn dod i ben

26.1.2. Pan fo'r Brifysgol yn torri'r Telerau ac Amodau hyn yn ddifrifol ac wedi methu â chywiro toriad difrifol o'r fath o fewn amser rhesymol. O dan amgylchiadau o'r fath, ni fyddwn yn codi tâl arnoch am unrhyw Ffioedd yn y dyfodol a byddwch yn gyfrifol am Ffioedd hyd at y dyddiad y mae'r contract yn dod i ben, ond efallai y bydd gennych hawl i ad-daliad o Ffioedd a dalwyd hyd at y dyddiad y mae'r contract yn dod i ben ar gyfer gwasanaethau nad ydych wedi'u derbyn

26.1.3. Pan fyddwch yn arfer eich hawliau canslo yn ystod y Cyfnod Ailfeddwl yn unol ag Adran 8.

26.1.4. Pan fo lefel y ffioedd sy'n daladwy gennych wedi cynyddu, fel y manylir ym mharagraff 5.2.1, os ydych chi'n ymgeisydd, dylech roi gwybod i'r Brifysgol eich bod am ddod â'ch contract i ben yn seiliedig ar gynnydd mewn Ffioedd. Ar yr amod nad ydych yn cofrestru; ni chodir unrhyw Ffioedd arnoch. Ar gyfer myfyrwyr sy'n parhau neu sydd wedi cofrestru, gallwch ddewis dod â'ch contract i ben ar unrhyw adeg, fodd bynnag, byddwch yn gyfrifol am yr holl ffioedd hyd at ddyddiad gorffen eich contract yn unol â Pholisi Ad-dalu'r Brifysgol (https://www.swansea.ac.uk/cy/israddedig/ffioedd-a-chyllid/ffioedd-dysgu/polisiad-daliadau/). Ni fyddwch yn gyfrifol am unrhyw Ffioedd yn y dyfodol ar gyfer y blynyddoedd academaidd dilynol.

26.1.5. Ar unrhyw adeg arall heb reswm. Os byddwch yn rhoi hysbysiad o'ch bwriad i ddod â'r contract i ben cyn dechrau pob blwyddyn academaidd, ni fyddwch yn gyfrifol am unrhyw Ffioedd ar gyfer y blynyddoedd academaidd dilynol. Fodd bynnag, os hoffech orffen hanner ffordd trwy'r flwyddyn academaidd berthnasol, efallai y byddwch chi'n gyfrifol am y Ffioedd am weddill eich blwyddyn academaidd, a byddwn yn trafod gyda chi pa lefel o ad-daliad y gallech fod â hawl iddo. Fodd bynnag, efallai na fydd gennych hawl i ad-daliad llawn o dan yr amgylchiadau hyn.

## 27. Atal y contract dros dro

27.1. Efallai y bydd adegau pan fo angen i chi atal eich astudiaethau dros dro ar gyfer amgylchiadau lliniarol, fel salwch, neu brofedigaeth. Bydd angen i chi gysylltu â'ch adran academaidd a/neu'r adran Cymorth i Fyfyrwyr os ydych chi'n profi unrhyw anawsterau a allai effeithio ar eich gallu i barhau â'ch rhaglen. Os byddwn yn cytuno i atal y Contract dros dro, byddwn yn eich hysbysu'n ysgrifenedig.

27.2. Efallai y bydd adegau lle bydd angen i'r Brifysgol atal eich astudiaethau a/neu'r contract hwn dros dro o dan amgylchiadau lle'r ydych chi'n torri eich rhwymedigaethau o dan y contract hwn, neu fod honiad i'r perwyl hwnnw, ac mae'r Brifysgol yn cadw'r hawl i atal eich astudiaethau a/neu'r contract hwn dros dro trwy roi hysbysiad ysgrifenedig i chi i alluogi ymchwiliad gan y Brifysgol neu fel sancsiwn yn dilyn y gweithdrefnau a nodir yn Rheoliadau'r Brifysgol neu oherwydd ym marn resymol y Brifysgol y byddai'n niweidiol i'ch iechyd, diogelwch neu'ch lles chi neu eraill eich bod chi'n mynychu'r Brifysgol. Mae gennych yr hawl i apelio/gofyn am adolygiad o ataliad yn unol â'r Rheoliadau perthnasol/Gweithdrefn berthnasol y gosodwyd yr ataliad dros dro oddi tanynt.

## 28. Dirymu Dyfarniadau

28.1. Mae'r Brifysgol yn cadw'r hawl i ymchwilio i honiadau o gamymddwyn academaidd a phenderfynu arnynt ar ôl i ddyfarniad gael ei roi i fyfyriwr yn unol â'r Weithdrefn Camymddwyn Academaidd. Os canfyddir eich bod wedi cyflawni camymddwyn academaidd ar ôl i chi dderbyn dyfarniad, gallai hyn arwain at y Brifysgol yn dirymu eich dyfarniad. (Gweler y ddolen i'r Weithdrefn hon yn 20.1 uchod).

## 29. Cwynion

29.1. Mae'r Brifysgol wedi ymrwymo i ddarparu profiad addysgol o ansawdd uchel, gyda chefnogaeth ystod o wasanaethau a chyfleusterau academaidd a gweinyddol. O bryd i'w gilydd, fodd bynnag, gall pethau fynd o'i le.

29.2. Os ydych chi'n fyfyriwr cofrestredig ac yn anfodlon â'ch addysgu a'ch dysgu neu gyfleusterau neu wasanaethau a ddarperir gan y Brifysgol ac yn dymuno cwyno, dylech ddilyn Gweithdrefn Gwneud Gwyno'r Brifysgol sydd ar gael yn https://hwb.swansea.ac.uk/cy/bywyd-academaidd/cwynion/

29.3. Gall myfyrwyr sydd wedi disbyddu pob cam o Weithdrefn Gwyno'r Brifysgol ac sy'n parhau i fod yn anfodlon â phenderfyniad sy'n ymwneud â chwyn a godwyd ganddynt gwyno i Swyddfa'r Dyfarnwr Annibynnol (OIA), corff annibynnol sy'n adolygu cwynion myfyrwyr: http://www.oiahe.org.uk/

29.4. Mae'r gweithdrefnau ar gyfer darpar fyfyrwyr ac ymgeiswyr sy'n anfodlon â chanlyniad cais neu'r modd y cafodd cais ei drin i'w gweld yn: https://www.swansea.ac.uk/cy/astudio/derbyn-myfyrwyr/polisi-derbyn/

## 30. Atebolrwydd

30.1. Os yw'r Brifysgol yn methu â chydymffurfio â'i rhwymedigaethau o dan y Telerau ac Amodau hyn, mae'r Brifysgol yn gyfrifol i chi am unrhyw golled neu niwed uniongyrchol rydych chi'n ei dioddef neu ei ddioddef sy'n ganlyniad rhesymol ragweladwy wedi i'r Brifysgol dorri'r contract hwn neu wedi i'r Brifysgol fethu â defnyddio gofal a sgiliau rhesymol.

30.2. Fodd bynnag, nid yw'r Brifysgol yn gyfrifol am unrhyw golled neu ddifrod nad yw'n rhagweladwy. Mae colled neu ddifrod yn rhagweladwy os yw'n amlwg y bydd yn digwydd os ydym yn torri'r Telerau ac Amodau hyn neu os, ar yr adeg y gwnaed y contract, roedd y Brifysgol a chithau'n gwybod y gallai ddigwydd, er enghraifft, os gwnaethoch chi ei drafod gyda'r Brifysgol cyn ymrwymo i'r contract. Ni fydd y Brifysgol, fodd bynnag, yn gyfrifol am unrhyw golled neu niwed rydych chi'n ei dioddef neu ei ddioddef y gellir ei phriodoli neu ei briodoli i'ch bai chi neu fai trydydd parti.

30.3. Nid yw'r Brifysgol yn gyfrifol am golledion busnes. Mae'r Brifysgol yn cyflenwi'r gwasanaethau hyn at ddefnydd domestig a phreifat yn unig. Os byddwch yn defnyddio'r gwasanaethau hyn at unrhyw ddiben masnachol, busnes neu ailwerthu, ni fydd gan y Brifysgol unrhyw atebolrwydd i chi am unrhyw golli elw, colli busnes, tarfu ar fusnes, neu golli cyfle busnes.

30.4. Nid yw'r Brifysgol mewn unrhyw ffordd yn eithrio nac yn cyfyngu ei hatebolrwydd am y canlynol:
- 30.4.1. Marwolaeth neu anaf personol a achosir gan ei hesgeulustod
- 30.4.2. Twyll neu gamliwio twyllodrus
- 30.4.3. Unrhyw atebolrwydd na ellir ei gyfyngu na'i eithrio fel y darperir ar ei gyfer o dan adran 57 o Ddeddf Hawliau Defnyddwyr 2015.

30.5. Nid yw'r Brifysgol yn derbyn cyfrifoldeb am unrhyw golled neu ddifrod i'ch eiddo. Fe'ch cynghorir i gael yswiriant perthnasol yn erbyn dwyn a risgiau eraill.

30.6. Yn ddarostyngedig i baragraff 30.4, bydd cyfanswm atebolrwydd y Brifysgol i chi (boed mewn contract, camwedd, (gan gynnwys esgeulustod), tor dyletswydd statudol, neu fel arall) yng nghyswllt eich contract gyda'r Brifysgol yn gyfyngedig i werth y Ffioedd a dalwyd gennych chi neu ar eich rhan neu'r swm, os o gwbl, y mae'r Brifysgol yn ei dderbyn gan ei hyswirwyr mewn perthynas â cholled benodol, pa un bynnag yw'r mwyaf.

## 31. Digwyddiadau y tu hwnt i reolaeth y Brifysgol

31.1. Nid yw'r Brifysgol yn gyfrifol am oedi y tu allan i'w rheolaeth. Os yw digwyddiad y tu allan i reolaeth y Brifysgol yn effeithio ar berfformiad gwasanaethau'r Brifysgol, yna bydd y Brifysgol yn cysylltu â chi cyn gynted â phosibl i roi gwybod i chi.

31.2. Yn y fath amgylchiadau, bydd y Brifysgol yn cymryd camau rhesymol i atal neu leihau effaith digwyddiadau y tu allan i'w rheolaeth ac yn cysylltu â chi cyn gynted â phosibl i roi gwybod i chi am hyn. Ar yr amod bod y Brifysgol yn gwneud hyn, mae'r Brifysgol yn cadw'r hawl i newid gan gynnwys oedi neu ohirio'r Rhaglen, darparu fersiwn wedi'i haddasu o'r Rhaglen (gan gynnwys addysgu ar-lein, sicrhau bod cymorth neu wasanaethau a chyfleusterau eraill y mae'n eu hystyried yn briodol ar gael i fyfyrwyr yr effeithir arnynt), cynnig trosglwyddiadau i Raglen arall neu ganslo rhannau neu'r cyfan o'ch Rhaglen a/neu gontract.

31.3. Ar yr amod bod y Brifysgol yn gwneud hyn, ni fydd y Brifysgol yn atebol am unrhyw oedi a achosir gan y digwyddiad, ond os oes risg o unrhyw oedi sylweddol, gallwch gysylltu â'r Brifysgol i derfynu'r contract a derbyn ad-daliad am unrhyw wasanaethau rydych wedi talu amdanynt ond heb eu derbyn.

31.4. Ni fydd y Brifysgol yn atebol i chi am ddigwyddiadau y tu allan i'w rheolaeth na allai fod wedi eu hatal hyd yn oed pe bai wedi cymryd gofal rhesymol. Mae digwyddiadau y tu allan i reolaeth y Brifysgol yn cynnwys (ond heb fod yn gyfyngedig i) weithredu diwydiannol, galw gormodol neu annigonol gan fyfyrwyr, salwch staff, newidiadau sylweddol i gyllid Addysg Uwch, tywydd garw, trychineb naturiol, epidemig a chlefyd pandemig (gan gynnwys pandemig Covid-19), tân, anhrefn sifil, aflonyddwch gwleidyddol, cyfyngiadau'r llywodraeth, cyfyngiadau awdurdodau cyhoeddus, a phryder ynghylch trosglwyddo salwch difrifol.

## 32. Materion cyffredinol

32.1. Bydd unrhyw hysbysiad neu gyfathrebu arall a wneir o dan y Telerau ac Amodau hyn yn ysgrifenedig ac wedi ei gyfeirio atoch yn y cyfeiriad e-bost neu'r cyfeiriad post diwethaf yr hysbyswyd gennych i'r Brifysgol, ac ystyrir ei fod wedi'i gyflwyno'n briodol os caiff ei gyflwyno trwy e-bost, â llaw pan gaiff ei adael yn y cyfeiriad post hwnnw neu os caiff ei wneud drwy'r post dosbarth cyntaf 48 awr ar ôl cael ei bostio i'r cyfeiriad hwnnw.

32.2. Mae eich contract gyda'r Brifysgol rhyngoch chi a'r Brifysgol a dim ond y ddau barti hyn all ei orfodi. Nid yw Deddf Contractau (Hawliau Trydydd Partïon) 1999 yn gymwys.

32.3. Bydd y contract yn cael ei lywodraethu a'i ddehongli yn unol â chyfreithiau Cymru a Lloegr (fel y maent yn gymwys yng Nghymru). Trwy dderbyn eich cynnig, rydych yn cytuno i gadw at y telerau ac amodau hyn ac yn ymostwng i awdurdodaeth anunigryw llysoedd Cymru a Lloegr ar gyfer datrys unrhyw anghydfodau a allai godi o'r contract neu mewn cysylltiad â'r contract.

32.4. Os ystyrir bod unrhyw ddarpariaeth yn y contract yn anghyfreithlon, yn ddi-rym a/neu'n

anorfodadwy yn ei chyfanrwydd neu'n rhannol gan unrhyw lys neu unrhyw awdurdod cymwys arall, bydd y contract yn parhau i fod yn ddilys o ran y darpariaethau eraill a gynhwysir ynddo a/neu weddill y ddarpariaeth yr effeithir arni.

32.5. Os byddwch yn torri telerau ein contract a bod y Brifysgol yn dewis peidio â mynnu eich bod yn cyflawni unrhyw un neu ragor o'ch rhwymedigaethau o dan y contract, neu os nad ydym yn gorfodi ein hawliau yn eich erbyn, neu os ydym yn oedi cyn gwneud hynny, nid yw hynny'n golygu ein bod wedi ildio ein hawliau yn eich erbyn ac ni fydd yn golygu nad oes rhaid i chi gydymffurfio â'r rhwymedigaethau hynny.

## 33. Hawliau pellach defnyddwyr

33.1. Fel defnyddiwr, bydd gennych hawliau cyfreithiol bob amser (gan gynnwys rhwymedïau statudol) mewn perthynas â gwasanaethau nad ydynt yn cael eu cyflawni gyda sgiliau a gofal rhesymol, neu os yw'r deunyddiau y mae'r Brifysgol yn eu defnyddio yn ddiffygiol neu os nad ydynt fel y'u disgrifiwyd.

33.2. I gael rhagor o fanylion am eich hawliau cyfreithiol (gan gynnwys rhwymedïau statudol) gallwch ymweld â'ch Canolfan Cyngor ar Bopeth leol, eich Swyddfa Safonau Masnach leol neu wefan yr Awdurdod Defnyddwyr a Marchnadoedd.

## 34. Ymholiadau

34.1. Dylid cyfeirio ymholiadau am ddehongli'r telerau ac amodau hyn at:

34.1.1. Cyn cofrestru: study@swansea.ac.uk

34.1.2. Ar ôl i chi gofrestru: myunihub@swansea.ac.uk

**Diweddarwyd ddiwethaf Mehefin 2025**